Cygnor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# **Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth:** Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011-2012 a Chynllun Strategol 2012-2015

# Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2011-2012 a Chynllun Strategol 2012-2015

Adroddiad Blynyddol 2011-2012 a Chynllun Strategol 2012-2015 a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 50(2) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (Diwygio) 2008

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Erthygl 52(7) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001

*Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 17 Medi 2012*

**HC 585** **Llundain: Y Llyfrfa** **£21.25**

**(h) Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (2012)**
Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, lle y maent yn ymddangos, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol ac asiantaethol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a nodi teitl y ddogfen. Lle y nodwyd deunydd trydydd parti, rhaid cael caniatâd priod ddeiliad yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r cyfeiriad canlynol sef Nursing and Midwifery Council, 23 Portland Place, London W1B 1PZ.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.official-documents.gov.uk.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.nmc-uk.org.

ISBN: 9780102978940

Argraffwyd yn y DU gan y Llyfrfa Cyfyngedig
ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Rhif Adnabod: P002494921 09/12

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu.

## Cynnwys

1. Rhagair ....................................................................................................................5

2. Amdanom ni..............................................................................................................6

3. Adolygiad 2011-2012 ................................................................................................7

4. Cyflawni ein cynllun corfforaethol yn ystod 2011-2012 ............................................12

5. Cynllun Strategol 2012–2015....................................................................................30

6. Adolygiad ariannol ....................................................................................................33

7. Adroddiad cydnabyddiaeth .......................................................................................35

8. Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro mewn perthynas â'r cyfrifon ..........................................................41

9. Datganiad Llywodraethu Blynyddol...........................................................................43

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ........................59

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr  ac Archwilydd Cyffredinol Dau Dŷ'r Senedd..........................................................................................................61

Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y  flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 ..............................................................................................................63

Y Fantolen ar 31 Mawrth 2012.......................................................................................64

Datganiad llif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 ................................................................................................................................65

Nodiadau i’r cyfrifon .......................................................................................................66

Penderfyniad Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (Ffurf Cyfrifon) 2010 ..........................................................................................................................86

# 1. Rhagair

Croeso i'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2011-12.

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un heriol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB), a nodwyd yn glir gan yr adolygiad strategol a gynhaliwyd gan y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (CHRE). Derbyniwyd pob un o argymhellion y CHRE ac rydym yn gwneud cynnydd da o ran eu rhoi ar waith ac ymgorffori'r newidiadau angenrheidiol.

Rydym yma i ddiogelu'r cyhoedd: cyhoedd sy'n disgwyl mwy gan nyrsys a bydwragedd. O ganlyniad, fel rheoleiddwyr gofal iechyd eraill, rydym wedi gweld cynnydd dramatig yn nifer y pryderon a godir ynghylch addasrwydd i ymarfer. Mae hyn yn cyflwyno heriau sylweddol, yn enwedig o ran sicrhau bod gennym yr adnoddau i gynnal lefel gweithgarwch addasrwydd i ymarfer yn ogystal â chyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio craidd eraill.

Gwyddom fod yn rhaid i ni fod yn fwy darbodus, effeithlon ac effeithiol. Bydd ein staff yn hanfodol i gyflawni'r uchelgais honno, felly rydym yn falch bod y CHRE wedi cydnabod ymroddiad ac ymrwymiad ein staff.

Dylai sicrhau diogelwch a lles y cyhoedd fod o'r pwys pennaf ym mhopeth a wnawn. Rydym yn bwriadu sicrhau bod hyn yn digwydd yn y dyfodol.

**Yr Athro Judith Ellis MBE**
**Dirprwy Gadeirydd**

**CNB**
**4 Medi 2012**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro**
**CNB**
**4 Medi 2012**

## 2. Amdanom ni

Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yn y DU a sefydlwyd o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001.[1] Ein diben statudol yw diogelu iechyd a lles y cyhoedd.[2] Fe'n hariennir gan y ffioedd y mae nyrsys a bydwragedd yn eu talu i fod ar ein cofrestr.

Rydym yn elusen sydd wedi'i chofrestru gyda Chomisiynydd Elusennau Cymru a Lloegr (rhif 1091434), a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif SC038362).

### Ein Gwerthoedd

Mae ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn ymrwymedig i fod yn atebol, yn deg, yn broffesiynol, yn flaengar

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol Ymddiriedolwyr y CNB. Wrth lunio'r adroddiad hwn rydym wedi bodloni gofynion y Gorchymyn a Deddf Elusennau 2011.[3] Cyflwynir y datganiadau yn y fformat sy'n ofynnol gan y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifyddu a Chyflwyno Adroddiadau gan Elusennau (a ddiwygiwyd ym mis Mawrth 2005).[4]

Ein hamcan elusennol yw diogelu iechyd a lles y cyhoedd. Rydym yn pennu safonau o ran addysg, hyfforddiant, ymddygiad a pherfformiad nyrsys a bydwragedd ac yn cadw cofrestr o'r rheini sydd wedi cymhwyso ac sy'n cyrraedd y safonau hynny. Rydym yn rhoi arweiniad i helpu nyrsys a bydwragedd i gael y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf a chynnal eu safonau proffesiynol. Mae gennym brosesau clir a thryloyw i ymchwilio i bryderon ynghylch nyrsys a bydwragedd nad ydynt yn cyrraedd ein safonau a mynd i'r afael â hwy. Mae cyflawni'r nodau hyn yn sicrhau manteision cyhoeddus.

Rydym wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw priodol i'r canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennol wrth benderfynu ar ein gweithgareddau. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn nodi sut mae ein gwaith yn dangos budd cyhoeddus.

Rydym yn atebol i'r Senedd, drwy'r Cyfrin Gyngor, am y modd rydym yn cyflawni ein dyletswyddau statudol. Yn 2011, cyflawnodd y Pwyllgor Iechyd y rôl hon ar ran y Senedd drwy ein galw i wrandawiad atebolrwydd.[5] Gwnaethom groesawu'r cyfle hwn i drafod ein gwaith ac rydym yn falch bod y Pwyllgor Iechyd yn bwriadu cynnal y gwrandawiadau hyn bob blwyddyn.

Mae ein gwaith hefyd yn cael ei oruchwylio gan y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (CHRE). Bob blwyddyn, mae CHRE yn edrych ar nifer o agweddau ar ein gwaith yn ogystal â chynnal adolygiad blynyddol o'n perfformiad.[6]

[1] Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 OS 2002/253 (fel y'i diwygiwyd).
[2] OS 2002/253, Erthygl 3(4).
[3] www.legislation.gov.uk/ukpga/2011/25/pdfs/ukpga_20110025_en.pdf
[4] www.charitycommission.gov.uk/Library/guidance/sorp05textcolour.pdf.
[5] www.publications.parliament.uk/pa/cm201012/cmselect/cmhealth/1699/169902.htm.
[6] www.chre.org.uk/overseeingregulators.

# 3. Adolygiad 2011-2012

Roedd y llynedd yn flwyddyn o gyflawniadau a heriau i'r CNB.

**Cyflawniadau allweddol:**

- Cymeradwyo'r cyrsiau addysg nyrsio cyn cofrestru lefel gradd newydd cyntaf y dechreuwyd eu cyflwyno yn Lloegr a'r Alban yn 2011.
- Diwygio'r rheolau ynghylch ein prosesau addasrwydd i ymarfer i'n helpu i ymdrin ag achosion yn gyflymach ac yn fwy effeithlon.
- Agor swyddfa yng Nghaeredin ym mis Hydref 2011 sy'n darparu cyfleuster penodol ar gyfer gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn yr Alban.
- Cynnal adolygiad arbennig o Ymddiriedolaeth Sylfaen y GIG Ysbytai Prifysgol Bae Morecambe ar y cyd â'r Comisiwn Ansawdd Gofal er mwyn sicrhau iechyd a lles mamau a babanod.
- Pwysleisio i nyrsys a bydwragedd eu rhwymedigaethau proffesiynol o dan y cod i roi blaenoriaeth i gleifion bob amser a rhoi gwybod am unrhyw fethiannau gofal gan gydweithwyr neu eraill[7]
- Arwain y ffordd yn Ewrop, fel yr unig reoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth sydd wedi cyflwyno system gynaliadwy o fesurau iawndal er mwyn cydymffurfio â'r gyfarwyddeb cymwysterau proffesiynol.[8]
- Gwneud cynnydd o ran ein hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys drwy wella'r modd rydym yn casglu ac yn defnyddio data amrywiaeth.

Rydym hefyd wedi wynebu heriau sylweddol newydd.

Cadarnhaodd adroddiadau archwilio ac adolygu perfformiad CHRE ar gyfer 2011 fod angen cymryd camau i fynd i'r afael â gwendidau yn ein swyddogaethau addasrwydd i ymarfer gan gynnwys pa mor gyflym yr ymdrinnir ag achos, ansawdd y penderfyniadau a wneir a'r gwasanaeth cwsmeriaid a ddarperir i'r rhai sy'n ymwneud ag achosion addasrwydd i ymarfer.[9] Rydym yn cydnabod bod angen i ni wneud mwy i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau rheoleiddio da CHRE,[10] yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â'n swyddogaethau cofrestru ac addasrwydd i ymarfer a dysgu o arfer da ym mhob rhan o'r sector.

Ym mis Ionawr 2012, gofynnodd yr Adran Iechyd i'r CHRE gynnal adolygiad strategol o'n gweithrediadau.[11] Nododd adroddiadau interim a therfynol y CHRE rai gwendidau difrifol gan gynnwys mewn arweinyddiaeth a diwylliant, dryswch ynghylch ein diben rheoleiddiol, llywodraethu gwan, cynllunio gwael, rheolaeth ariannol a gweithredol,

[7] www.nmc-uk.org/the-code.
[8] Cyfarwyddeb 2005/36/EC ar gydnabod cymwysterau proffesiynol
[9] www.chre.org.uk/overseeingregulators
[10] www.chre.org.uk/_img/pics/library/100601_The_Performance_Review_Standards_1.pdf
[11] Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog i'r Senedd, yr Adran Iechyd, 26 Ionawr 2012

gwybodaeth reoli annibynadwy a thechnoleg gwybodaeth annigonol.[12] Croesawyd yr adolygiad a derbyniwyd y canfyddiadau, sydd wedi cyfrannu at ein rhaglen o newidiadau sylweddol i drawsnewid y CNB yn rheoleiddiwr mwy darbodus, effeithlon ac effeithiol.

Rydym yn falch bod y CHRE wedi cydnabod ymroddiad ein staff a'u hymrwymiad i ddiogelu'r cyhoedd. Ein nod yw adeiladu ar hyn a, thrwy newid ffurf a maint y sefydliad, sicrhau bod ein holl egnïon ac adnoddau yn canolbwyntio ar gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddiol craidd.

Ochr yn ochr ag adolygiad y CHRE, cynhaliwyd ailwerthusiad mawr o bob un o'n rhaglenni gwaith presennol ac arfaethedig. Roedd hyn yn golygu gwneud penderfyniadau anodd gan gynnwys rhoi terfyn ar ffrydiau gwaith nad oeddent yn cyfrannu rhyw lawer at ddiogelu'r cyhoedd. Wrth wneud hynny, roeddem yn ymwybodol, yn achos rhywfaint o'r gwaith hwn, y gallai fod yn fuddiol aros am ganlyniadau adolygiad Comisiwn y Gyfraith o weithgarwch rheoleiddio gofal iechyd.[13]

**Trawsnewid ein gwaith**

Bydd ein rhaglen drawsnewid yn sicrhau newidiadau sylweddol yn y CNB yn ystod 2012-2013 ac ar ôl hynny gan gynnwys yn y meysydd canlynol:


- Arweinyddiaeth, drwy benodiadau parhaol i swyddi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ac ailgyfansoddi'r Cyngor fel y cynigiwyd gan yr Adran Iechyd.[14]
- Diwylliant, drwy sicrhau bod llywodraethu cadarn, atebolrwydd a thryloywder wrth wraidd popeth a wnawn.
- Cyflawni, drwy:
    - Newid y ffordd rydym yn gweithio i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddiol yn fwy darbodus, effeithlon ac effeithiol.
    - Parhau i ganolbwyntio ar wella perfformiad, gan gynnwys drwy wella argaeledd gwybodaeth am berfformiad a gwybodaeth reoli a'r defnydd a wneir o'r wybodaeth honno.

## Dysgu o adborth

Rydym yn cymryd unrhyw adborth am ein gwaith o ddifrif ac yn croesawu'r cyfle y mae hyn ei roi i sicrhau ein bod yn parhau i wella'r hyn a wnawn. Dengys y siartiau canlynol y cwynion corfforaethol a gawsom yn ystod 2011-12.

[12] www.chre.org.uk/_img/pics/library/pdf_1333646173.pdf
www.chre.org.uk/_img/pics/library/120702_CHRE_Final_Report_for_NMC_strategic_review_(pdf)_1.pdf
[13] lawcommission.justice.gov.uk/consultations/healthcare.htm
[14] Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) (Diwygio): Papur ymgynghori, yr Adran Iechyd, Mai 2012. www.dh.gov.uk/en/Consultations/Liveconsultations/DH_133894

## Cwynion corfforaethol 2011-2012




Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyfanswm o 146 o gwynion corfforaethol, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â'n swyddogaethau cofrestriadau neu addasrwydd i ymarfer. Gwnaethom ymateb i 95 y cant o fewn ein targed, sef 20 diwrnod. Cafodd 152 o gwynion eraill eu derbyn a'u trafod yn uniongyrchol gan ein cyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer a gwnaethom ymateb i 89 y cant o'r cwynion hyn o fewn ein targed o 20 diwrnod.

**Er mwyn atgyfnerthu ein dysgu eleni gwnaethom y canlynol**:

- Craffu ar berfformiad wrth ymateb i gwynion yng nghyfarfodydd y Cyngor, gan gynnwys edrych ar unrhyw broblemau sy'n codi dro ar ôl tro a chamau gweithredu i fynd i'r afael â hwy.
- Gwella'r modd y caiff cwynion a wneir yn uniongyrchol i'n cyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer eu rheoli a'u monitro.
- Cyflwyno un system ar gyfer cofnodi'r holl gwynion ac adborth a geir, yn lleol neu'n gorfforaethol, yn Swyddfa'r Prif Weithredwr.
- Cyflwyno Adolygiadau mewnol o Ddigwyddiadau Difrifol ym mhob rhan o'r sefydliad er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu o ddigwyddiadau mewnol. Hysbysir ein Pwyllgor Archwilio o bob digwyddiad o'r fath, ynghyd â chynllun gweithredu er mwyn sicrhau na fyddant yn digwydd eto a throsglwyddo'r hyn a ddysgwyd i bob rhan o'r sefydliad.
- Dechrau ar y broses o nodi'r hyn a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau mewnol yn systematig er mwyn ymgorffori gwelliannau yn ein polisïau, ein systemau a'n gweithdrefnau.

## Hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth

Rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a hyrwyddo cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mabwysiadwyd ein hamcanion cydraddoldeb yn ystod haf 2012.

**Rydym wedi gwneud y canlynol:**

- Sefydlu Fforwm Hyrwyddwyr Amrywiaeth mewnol.
- Sefydlu Panel Cyfeirio Amrywiaeth annibynnol i weithredu fel “ffrind beirniadol”, darparu her allanol a monitro ein cynnydd.
- Diwygio ein Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a'n polisi Gwerthfawrogi Amrywiaeth er mwyn adlewyrchu gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Dechrau ymgorffori cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein prosesau cynllunio busnes, rheoli prosiectau a chofnodi perfformiad.
- Darparu hyfforddiant Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb i aelodau allweddol o staff mewn partneriaeth â'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol a'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.
- Codi ymwybyddiaeth staff drwy ddathlu digwyddiadau allweddol megis mis hanes pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a dathlu Mis Hanes Pobl Dduon drwy gynnal seminar ar y cyd â'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol.


Rydym yn rhannu arfer da a'r hyn a ddysgwyd gan eraill o'r tu fewn a'r tu allan i'r sector iechyd. Rydym yn cael cyngor, canllawiau a chyfleoedd meincnodi drwy fod yn aelod o sefydliadau megis Opportunity Now, Rhwydwaith y Cyflogwyr ar Gydraddoldeb a Chynhwysiant, Stonewall a'r Gymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth o ran Rhywedd (GIRES).

**Defnyddio data cydraddoldeb ac amrywiaeth**

Rydym yn gweithio i wella'r modd rydym yn defnyddio ein data fel rheoleiddiwr ac fel cyflogwr.

Mae'r siart isod yn rhoi dadansoddiad o'n cofrestr yn ôl ethnigrwydd ym mis Gorffennaf 2011. Mae hyn yn seiliedig ar ffurflenni a gyflwynwyd gan 43% o'r nyrsys a'r bydwragedd ar ein cofrestr. Er bod darparu'r data hwn yn wirfoddol, rydym yn annog pob nyrs a bydwraig i gwblhau ffurflen monitro amrywiaeth ac rydym wedi hwyluso'r broses hon drwy ei gwneud yn bosibl i lenwi ffurflenni ar-lein.

## Y gofrestr yn ôl ethnigrwydd ym mis Gorffennaf 2011




**Rydym wedi gwneud y canlynol:**

- Cyhoeddi data monitro amrywiaeth ar gyfansoddiad ein gweithlu.[15]
- Cyhoeddi proffil amrywiaeth o'n Cyngor, aelodau partner ac aelodau'r panel addasrwydd i ymarfer.[16]
- Cynhyrchu data ethnigrwydd ac amrywiaeth ar gyfansoddiad ein cofrestr.[17]
- Cynnwys ethnigrwydd, oedran, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol a data anabledd yn ein Hadroddiad Addasrwydd i Ymarfer blynyddol am y tro cyntaf, yn ychwanegol at wybodaeth am ryw.
- Dechrau dadansoddi ein data i nodi'r hyn y gall ddweud wrthym am unrhyw effaith y gall ein gwaith ei gael ar y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.[18]

---

[15] www.nmc-uk.org/About-us/Equality-and-diversity/Equality-and-diversity-about-us/NMC-diversity-profile/

[16] www.nmc-uk.org/Documents/CouncilPapersAndDocuments/Council2011/NMC-Council-papers-November-2011.PDF a http://www.nmc-uk.org/Documents/EandD/NMC-Council-and-Committee-members-Equality-and-Diversity-profile.pdf

[17] www.nmc-uk.org/About-us/Equality-and-diversity/Analysis-of-diversity-data-2011

[18] Sef oedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol

# 4. Cyflawni ein cynllun corfforaethol yn ystod 2011-2012

Pennodd ein cynllun corfforaethol dri nod strategol i ddiogelu iechyd a lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau nyrsys a bydwragedd neu y mae angen y fath wasanaethau arnynt. Cefnogir y flaenoriaeth ganolog hon gan ein gweithgarwch wrth ymgysylltu â rhanddeiliaid ac mae'r ddau yn dibynnu ar staff a systemau ategol o ansawdd uchel.[19]

| | |
|---|---|
| **Nod 1**<br><br>**Diogelu** | **Bydd diogelwch y cyhoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd ein gwaith yn seiliedig ar y buddiannau y gallwn eu cynnig i'r cyhoedd ac yn cael ei fesur yn eu herbyn.** |

## Gosod safonau ar gyfer addysgu a hyfforddi nyrsys a bydwragedd

Mae gosod safonau uchel ar gyfer addysg a hyfforddiant yn hanfodol i sicrhau bod nyrsys a bydwragedd a dderbynnir i'r gofrestr yn ddiogel i ymarfer. Dim ond sefydliadau a rhaglenni addysgol sy'n cyrraedd ein safonau sy'n cael darparu hyfforddiant.

**Rydym wedi gwneud y canlynol:**

- Cymeradwyo 81 o brifysgolion i ddarparu tua 1,100 o raglenni addysg a hyfforddiant. Cymeradwywyd 35 o'r rhain i weinyddu cyrsiau lefel gradd newydd i gyflwyno ein safonau nyrsio cyn cofrestru o fis Medi 2011.
- Cwblhau adolygiadau o safonau allweddol er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol neu nodi unrhyw welliannau sydd eu hangen gan gynnwys y canlynol:
    - Iechyd da, cymeriad da.
    - Gofynion o ran dychwelyd i ymarfer.
    - Safonau i gefnogi dysgu a gwaith asesu yn ymarferol.
- Darparu ein rhaglen o hyfforddiant sicrhau ansawdd a darpariaeth addysgol ar gyfer nyrsys a bydwragedd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod o safon uchel: Ymwelwyd â 54 o brifysgolion ac adolygwyd 130 o raglenni.
- Rhoi mwy o gymorth i addysgwyr a myfyrwyr drwy wneud y canlynol:
    - Gwella ein llawlyfr i fyfyrwyr a dosbarthu e-gylchlythyr misol i dros 16,000 o addysgwyr a myfyrwyr.
    - Sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael ar-lein i'r rhai sy'n datblygu ac yn darparu rhaglenni addysg a hyfforddiant.[20]
- Sefydlu grwpiau cyfeirio i roi mewnbwn arbenigol i'n gwaith sicrhau ansawdd.

[19] www.nmc-uk.org/Documents/Annual_reports_and_accounts/Corporate-plan_2011-2014.pdf
[20] www.nmc-uk.org/Documents/Standards/nmcSLAiP-FAQs.pdf a www.nmc-uk.org/Educators/Standards-for-education/Standards-of-proficiency-for-nurse-and-midwife-prescribers/FAQ-Nurse-prescriber-education-programmes

**Sicrhau ansawdd rhaglenni addysg a hyfforddiant**

Bwriedir i'n fframwaith sicrhau ansawdd sicrhau y diogelir y cyhoedd drwy gymeradwyo a monitro rhaglenni ar gyfer addysgu a hyfforddi nyrsys a bydwragedd. Rydym yn gweithio'n agos gyda phrifysgolion i asesu bod ein safonau yn cael eu cyrraedd ac yn gwerthfawrogi'r cydberthnasau gwaith cadarnhaol sydd gennym â hwy.

Fodd bynnag, rydym yn cymryd camau pan fo gennym le i bryderu. Er enghraifft, yn sgil pryderon a godwyd gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC), gofynnwyd i'r prifysgolion perthnasol symud nyrsys a bydwragedd dan hyfforddiant o Ymddiriedolaeth Ysbytai Unedig Swydd Lincoln i leoliadau clinigol eraill. Yn dilyn gwaith dwys gyda'r CQC, roedd y prifysgolion yn gallu dychwelyd myfyrwyr i'r lleoliadau hyn unwaith roeddent yn fodlon nad oedd unrhyw risgiau ar ôl i ddiogelwch cleifion na'r cyhoedd. Mae angen gweld hyn yn ei gyd-destun: yn rhaglen fonitro'r llynedd, allan o 270 o agweddau ar y ddarpariaeth a adolygwyd ar draws 54 o brifysgolion, dim ond wyth agwedd a gafodd radd anfoddhaol a oedd yn golygu bod angen rhoi cynllun gweithredu ar waith.

## Polisi a safonau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Ar ôl cymhwyso, disgwylir i bob nyrs a bydwraig ddilyn y cod proffesiynol a bennir gennym.[21] Y cod yw sylfaen ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth da ac mae'n ddull allweddol o ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd. Mae'n nodi'n glir mai gofalu am bobl ddylai prif flaenoriaeth nyrsys a bydwragedd fod a bod yn rhaid iddynt eu trin fel unigolion a pharchu eu hurddas. Cynhaliwyd arolwg byr y llynedd i lywio adolygiad o'r cod a safonau cysylltiedig y bwriedir eu cynnal bellach yn 2013-2014.

Gan ddefnyddio arfer da o fannau eraill, rydym yn rhoi cylch datblygu polisi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar waith ac yn atgyfnerthu ein dull o gasglu a gwerthuso tystiolaeth i'n helpu i wneud penderfyniadau cadarn ac asesu a yw ein gwaith yn cyflawni'r canlyniadau dymunol.

**Rydym wedi:**

- Cychwyn adolygiad cyffredinol o'n hymagwedd at safonau a chanllawiau. Rydym yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod ein safonau yn cael mwy o effaith ac y gallant fod o ddefnydd mwy ymarferol i gleifion a'r cyhoedd o ran llywio a gwerthuso eu gofal.
- Dechrau prosiect i wella'r modd rydym yn defnyddio ein data i ddeall a gwella ein gwaith rheoleiddio, gan gynnwys helpu i ddeall y rheswm dros y cynnydd yn nifer yr achosion addasrwydd i ymarfer, fel yr awgrymwyd gan y Pwyllgor Iechyd.
- Parhau i ymestyn ein gweithgarwch ymgysylltu â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys cynnal adolygiadau ar y cyd â'r CQC ac eraill. Gwnaethom helpu'r CQC gyda chanllawiau ar gyfer monitro'r modd y rhoddir gofal i bobl ag anableddau dysgu.
- Dechrau crynhoi'r hyn a ddysgwyd o'r gwaith rhyng-reoleiddiol hwn, er mwyn datblygu dull mwy systematig o rannu gwybodaeth yn barod ar gyfer canlyniadau tebygol yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Ymddiriedolaeth Sylfaen GIG Canol Swydd Stafford (Ymchwiliad Francis).[22]
- Cyfrannu at waith Sgiliau Iechyd a Sgiliau Gofal er mwyn datblygu safonau hyfforddi cyffredin a chod ymddygiad ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd y GIG yn Lloegr.

[21] The code: Standards of conduct, performance and ethics for nurses and midwives. www.nmc-uk.org/the code
[22] www.midstaffspublicinquiry.com

**Materion sy'n ymwneud â bydwreigiaeth**

Mae ein Pwyllgor Bydwreigiaeth yn parhau i roi mewnbwn a chyngor arbenigol ar ddatblygiadau ym maes bydwreigiaeth, gan gynnwys ein gwaith parhaus i adolygu Rheolau'r Bydwragedd. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y rheolau arfaethedig ac rydym yn disgwyl eu rhoi ar waith ar ddiwedd 2012. Rydym hefyd wedi helpu'r Comisiwn Ansawdd Gofal i ddatblygu safonau ar gyfer monitro goruchwyliaeth statudol bydwragedd mewn lleoliadau darparwyr bydwreigiaeth.

Ym mis Ebrill 2011, llwyddwyd i gyflwyno trefniadau monitro chwarterol newydd er mwyn i awdurdodau goruchwylio lleol ein hysbysu o faterion allweddol sy'n ymwneud â goruchwylio swyddogion bydwreigiaeth. Mae hyn eisoes yn system rhybuddio cynnar effeithiol ac mae'n cael ei mireinio ymhellach i'w gwneud yn bosibl i ddychwelyd yr adroddiadau chwarterol yn electronig a hwyluso'r broses o rannu arfer da.

**Rheoleiddio yn ymarferol**

Mewn partneriaeth â'r CQC, gwnaethom gymryd rhan mewn adolygiad arbennig o Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol Bae Morecambe (yr Ymddiriedolaeth) yn sgil nifer o bryderon a chwynion a godwyd gyda ni. Gwnaeth ein hadroddiad 19 o argymhellion a oedd yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch polisïau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth sy'n hanfodol i sicrhau gofal diogel ac effeithiol o'r safon uchaf.[23] Cynhaliwyd ymweliadau dilynol â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y Comisiwn Ansawdd Gofal, Monitor, y Cyngor Meddygol Cyffredinol a chomisiynwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y gwelliannau yng nghynllun gweithredu'r Ymddiriedolaeth yn cael eu rhoi ar waith. Drwy ein system adrodd ar gyfer Awdurdodau Goruchwylio Lleol, rydym yn monitro cynnydd yr Ymddiriedolaeth yn ofalus er mwyn sicrhau diogelwch a lles mamau a'u babanod.

Ar y cyd â Choleg Brenhinol y Bydwragedd gwnaethom gomisiynu adroddiad annibynnol sef Feasibility and Insurability of Independent Midwifery a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011.[24] Mae mater allweddol sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd yma. Mae'r cod yn argymell y dylai bydwragedd drefnu bod ganddynt ddigon o yswiriant indemnedd proffesiynol neu, os na allant wneud hynny, y dylent ddangos bod eu cleientiaid a'u cleifion yn llawn ymwybodol o'r ffaith hon a'i goblygiadau posibl. Byddwn yn edrych ar hyn yn ofalus fel rhan o'r broses o ystyried sut y gallwn sicrhau yr adlewyrchir statws yswiriant pob nyrs a bydwraig ar y gofrestr.

Mae'r Adran Iechyd wrthi'n gweithio ar y newidiadau cyffredinol sydd eu hangen i weithredu deddfwriaeth Ewropeaidd a fydd yn gymwys i bob rheoleiddiwr gweithwyr iechyd proffesiynol.[25] Byddwn yn cyfrannu at hynny yn ogystal ag edrych ar sut y gallwn wneud y newidiadau gweithredol angenrheidiol i'n broses gofrestru

**Sgiliau ieithyddol**

Rydym wedi parhau i fod yn rhagweithiol wrth alw am newidiadau i ddeddfwriaeth Ewropeaidd i'n galluogi i brofi yn systematig sgiliau ieithyddol nyrsys a bydwragedd a

[23] www.nmc-uk.org/Documents/MidwiferyExtraordinaryReviewReports/NMC_Review-of-University-Hospitals-of-Morecambe-Bay-NHS-Foundation-trust.pdf
[24] www.nmc-uk.org/Documents/Midwifery-Reports/Feasibility-and-Insurability-of-Independent-Midwifery-in-England_September-2011.pdf
[25] Cyfarwyddeb 2011/24/EU ar Ofal Iechyd Trawsffiniol

hyfforddwyd mewn mannau eraill yn Ewrop sydd am ymarfer yn y DU.[26] Rhoesom dystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd ac Ymchwiliad gan Dŷ'r Arglwyddi i symudedd gweithwyr iechyd proffesiynol ac roeddem yn falch bod y naill a'r llall o blaid ein safbwynt.[27]

Rydym wedi cydgysylltu mewnbwn yr awdurdodau ledled yr Undeb Ewropeaidd sy'n cyflawni rôl debyg i'n rôl ni ac roeddem yn gallu sicrhau bod y Comisiwn Ewropeaidd yn ymgorffori'r rhan fwyaf o'n hargymhellion yn ei gynigion ar gyfer diwygiadau i'r gyfarwyddeb cymwysterau proffesiynol. Rydym yn gweithio i sicrhau bod Aelodau Senedd Ewrop a fydd yn ystyried cynigion y Comisiwn yn deall ein pryderon.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi cymryd camau i leihau'r risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n gysylltiedig â chyflogi nyrsys neu fydwragedd a chanddynt sgiliau ieithyddol annigonol. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Adran Iechyd i dynnu sylw at y cyfrifoldebau sydd gan gyflogwyr i sicrhau bod gan eu staff sgiliau ieithyddol priodol.

**Sicrhau bod nyrsys a bydwragedd yn parhau yn gymwys i ymarfer : tuag at ailddilysu**

Rydym yn ymrwymedig i gyflwyno system ailddilysu effeithiol a chymesur ar gyfer pob nyrs a bydwraig yn 2014. Bydd y broses ailddilysu yn diweddaru ac yn gwella'r safonau addysg ac ymarfer ôl-gofrestru (Prep) cyfredol.

**Rydym wedi:**

- Adnewyddu *Llawlyfr Prep* – sy'n cynnwys y safonau a'r canllawiau ar gyfer addysg ac ymarfer ôl-gofrestru (Prep) y mae'n rhaid i nyrsys a bydwragedd eu dilyn er mwyn adnewyddu eu cofrestriad bob tair blynedd.[28]
- Cynnal prosiect peilot i archwilio sampl o 100 o achosion Prep a ddewiswyd ar hap. Bydd dysgu o'r prosesau archwilio yn helpu i lywio ein trefniadau ailddilysu yn y dyfodol.
- Gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu ein dull ailddilysu er mwyn bodloni disgwyliadau'r Adran Iechyd a'r CHRE o ran cymesuredd, cysondeb, ystwythder, tryloywder ac atebolrwydd.

Bydd y broses ailddilysu yn helpu i sicrhau bod cleifion yn fwy diogel a meithrin hyder y cyhoedd drwy ei gwneud yn ofynnol i nyrsys a bydwragedd ddangos yn gliriach eu bod yn cyrraedd ein safonau er mwyn aros ar y gofrestr.


[26] Cyfarwyddeb 2005/36/EC ar gydnabod cymwysterau proffesiynol. Mae'r Gyfarwyddeb yn cwmpasu Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd ac Aelod-wladwriaethau Cymdeithas Fasnach Rydd Ewrop.
[27] www.publications.parliament.uk/pa/ld201012/ldselect/ldeucom/201/20102.htm a www.publications.parliament.uk/pa/cm201012/cmselect/cmhealth/1699/169902.htm
[28] www.nmc-uk.org/Educators/Standards-for-education/The-Prep-handbook

## Cynnal y gofrestr

Wrth wraidd popeth a wnawn i ddiogelu'r cyhoedd mae cadw'r gofrestr o nyrsys a bydwragedd a gaiff ymarfer yn y DU yn gyfreithlon. Dim ond y sawl sy'n cyrraedd ein safonau a all gael eu cynnwys ar y gofrestr, neu aros arni. Mae statws cofrestru yn rhoi sicrwydd i gleifion, cyflogwyr a'r cyhoedd bod unigolyn yn gwbl gymwysedig, ei fod wedi'i hyfforddi, y gall ymarfer mewn ffordd ddiogel ac effeithiol ac y gellir ymddiried ynddo a chael hyder ynddo.

Ar 31 Mawrth 2012, roedd 671,668 o nyrsys a bydwragedd ar y gofrestr. Dengys y siart canlynol ddadansoddiad o'r gofrestr yn ôl gwlad cofrestru.

**Y gofrestr yn ôl gwlad ar 31 Mawrth 2012**




Gall unrhyw un gadarnhau statws cofrestru nyrs neu fydwraig unrhyw bryd drwy ein cofrestr gyhoeddus ar-lein neu drwy ysgrifennu atom neu ein ffonio.[29] Fel yr argymhellwyd gan y CHRE, rydym wrthi'n ystyried sut y gallwn ei gwneud yn haws i unigolion gael gafael ar wybodaeth am nyrsys neu fydwragedd sydd wedi'u dileu neu eu hatal dros dro o'r gofrestr drwy ein cyfleuster chwilio ar-lein.

Mae'n anghyfreithlon i nyrs neu fydwraig ymarfer os nad yw ar ein cofrestr neu os yw ei chofrestriad wedi darfod. Bu sicrhau bod nyrsys a bydwragedd yn adnewyddu eu cofrestriad yn brydlon yn ffocws allweddol yn ystod 2011-12. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 2.04 y cant yn nifer y cofrestriadau a adnewyddwyd cyn iddynt ddod i ben, o 87.43 y cant i 89.47 y cant; a chynnydd o 2.6 y cant o ran y ffioedd cofrestru blynyddol a dalwyd yn brydlon, o 92.62 y cant i 95.22 y cant.

[29] www.nmc-uk.org/Search-the-register.

**Rydym wedi gwneud y canlynol:**

- Cyflwyno rhaglenni dawn ac addasu ar gyfer ymgeiswyr o'r UE sy'n seiliedig ar y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gofrestru yn y DU.

- Gwella profiad y cwsmer drwy alluogi ymgeiswyr o'r UE ac ymgeiswyr rhyngwladol i hunanasesu eu cymhwysedd i wneud cais i gofrestru gan ddefnyddio ein gwefan ddiogel.

- Gwella ein proses apelio drwy wneud y canlynol:

    - Rhoi mwy o wybodaeth i ymgeiswyr aflwyddiannus am sut i apelio.

    - Ehangu'r gronfa o banelwyr a chadeiryddion sydd ar gael i gynnal gwrandawiadau apêl er mwyn cyflymu'r broses.

- Hwyluso dros 4.8 miliwn o chwiliadau o'r gofrestr drwy ein cyfleuster ar-lein cyhoeddus.

- Galluogi dros filiwn o wiriadau o'r gofrestr drwy ein Gwasanaeth Cadarnhau i Gyflogwyr.

- Dechrau rhannu gwybodaeth gyda system cofnod staff electronig (ESR) y GIG. Caiff newidiadau i unrhyw un o'r 400,000 o gofnodion a ddelir gan yr ESR eu diweddaru bob dydd, gan sicrhau y gall cyflogwyr y GIG weld unrhyw newidiadau yn statws cofrestru nyrsys neu fydwragedd yn ddi-oed.

- Lansio menter ar y cyd â Choleg Brenhinol y Ffisegwyr, Cymdeithas Feddygol Prydain a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol i sicrhau bod practisau meddygon teulu yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt gadarnhau statws cofrestru nyrsys practis.

- Cael cytundeb y Cyngor Ansawdd Gofal i sicrhau bod rhoi prosesau boddhaol ar waith i gadarnhau cymwysterau a statws cofrestru nyrsys practis yn un o'r amodau ar gyfer cofrestru practisau meddygon teulu.[30]

**Gwella cywirdeb y gofrestr**

Ar ddiwedd 2011, nodwyd gwallau mewn eitemau ar y gofrestr a oedd yn ymwneud â rhai unigolion sydd wedi mynd drwy ein prosesau addasrwydd i ymarfer. Mae rhai gwallau yn deillio o'r diffyg cysylltedd rhwng ein cronfa ddata cofrestriadau a'n system rheoli achosion addasrwydd i ymarfer. O ganlyniad gwnaethom ddechrau archwiliad ehangach, mwy trylwyr. Rydym wedi atgyfnerthu ein gweithdrefnau gweithredu a'n rhaglenni hyfforddi staff er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd hyn yn digwydd eto yn y dyfodol. Rydym yn cynnal gwiriadau dyddiol er mwyn sicrhau bod unrhyw wallau rhwng y ddwy system yn cael eu nodi ar unwaith a'u cywiro. Caiff ateb tymor hwy i'r broblem hon ei ddarparu drwy ddatrysiad TG addas, fel rhan o'n strategaeth TGCh sy'n datblygu.

[30] Daw i rym ym mis Ebrill 2013.

**Ein safonau gwasanaeth**

Rydym yn gosod safonau clir ar gyfer prosesu ceisiadau i gofrestru ac adnewyddu ac ymateb i ymholiadau dros y ffôn a thrwy e-bost. Roeddem yn siomedig, am gyfnod yn ystod 2011, nad oeddem yn gallu cynnal y safonau hyn yn dilyn penderfyniad i leihau nifer y staff a wnaed er mwyn paratoi ar gyfer trosglwyddo mwy o wasanaethau ar-lein. Cyflogwyd mwy o staff a gwellodd ein perfformiad nes cyrraedd y safonau blaenorol tua diwedd 2011-12.

Rydym wedi ceisio gwella ein gwasanaeth cwsmeriaid drwy wella ein system ffôn er mwyn ymdrin â mwy o ymholiadau yn ystod y cyswllt cyntaf yn ogystal â defnyddio ein hadnoddau yn fwy effeithlon ac effeithiol i ateb y galw mewn amser real.

## Addasrwydd i Ymarfer

Mae diogelu'r cyhoedd rhag nyrsys neu fydwragedd y mae eu haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol wrth wraidd ein diben rheoleiddiol. Ni yw'r unig sefydliad a all atal nyrsys a bydwragedd rhag ymarfer yn y DU os ydynt yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd.


Dim ond nifer fach iawn o nyrsys a bydwragedd y mae ein hachosion addasrwydd i ymarfer yn ei chynnwys: 0.6 y cant o'r rhai sydd ar ein cofrestr gyda llai na 0.1 y cant yn cael eu cosbi y llynedd. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn rhoi cyfrif am fwy na hanner ein staff ac, yn 2011-12, 67 y cant o'n cyllideb.

Rydym wedi gweld cynnydd, na welwyd mo'i debyg o'r blaen, o 48 y cant yn nifer y pryderon a godwyd gyda ni ynghylch nyrsys a bydwragedd ers 2009-2010. Rydym wedi edrych ar ymchwil a wnaed gan reoleiddwyr eraill sydd wedi gweld cynnydd tebyg i weld beth y gallwn ei ddysgu o hyn. Rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd adroddiad Ymchwiliad Francis ar ddiwedd 2012 yn arwain at gynnydd pellach yn nifer yr atgyfeiriadau ac rydym wedi ystyried hyn yn ein tybiaethau cynllunio a chyllidebu.[31]

Dengys y graff isod y duedd o ran atgyfeiriadau newydd ers 1 Ebrill 2009.

[31] www.midstaffspublicinquiry.com/

## Dadansoddiad o'r duedd o ran atgyfeiriadau newydd addasrwydd i ymarfer




## Sut rydym yn ymdrin â phryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer

Pan gaiff pryder newydd ynghylch addasrwydd i ymarfer ei godi gyda ni, fel arfer rydym yn cymryd y camau canlynol:

- Asesiad cychwynnol (sgrinio) o'r honiad neu'r gŵyn, gan gynnwys pennu a oes angen gweithredu ar fyrder.
- Lle y bo angen, ymchwilio i'r honiad neu'r gŵyn a phenderfynu a oes achos i'w ateb.
- Lle y bo angen, cynnal gwrandawiad neu gyfarfod i gyrraedd penderfyniad terfynol ac, os canfyddwn fod addasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol, bennu pa gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd, gan gynnwys unrhyw gosb briodol.
- Mewn achosion lle mae risg ddifrifol ac uniongyrchol i ddiogelwch cleifion neu'r cyhoedd, gallwn weithredu ar fyrder drwy orchmynion dros dro i atal y nyrs neu'r fydwraig rhag ymarfer dros dro neu gyfyngu ar ei hymarfer ar unwaith.

Dengys y siart llif canlynol yr hyn sy'n digwydd i achosion ar ôl i ni eu cael.

## Proses Addasrwydd i Ymarfer o 6 Chwefror 2012




### Esboniad o dermau a mathau o siartiau

PI - Pwyllgor Iechyd
PYCh - Pwyllgor Ymddygiad a Chymhwysedd



**Ein rhaglen gwella addasrwydd i ymarfer**

Ym mis Ionawr 2011, gwnaethom ddechrau rhaglen fawr i wella ein gwaith addasrwydd i ymarfer. Cyflymodd y gweithgarwch hwn yn ystod 2011-12 pan ddyrannwyd cyllid ychwanegol sylweddol at y diben hwn o'n cronfeydd wrth gefn. Gwnaethom ddwysáu ein ffocws a'n gwaith craffu gan gynnwys sefydlu Grŵp Cynllun Gweithredu Addasrwydd i Ymarfer o fewn y Cyngor gyda chymorth rheoleiddwyr eraill. Datblygwyd cynllun gweithredu, y cytunwyd arno gyda'r Adran Iechyd a'r CHRE, i fynd i'r afael â thri maes â blaenoriaeth i'w gwella.

**Pa mor gyflym rydym yn ymdrin ag achosion:**

- Ar ôl cael cytundeb yr Adran Iechyd, diwygiwyd y rheolau ar gyfer ymdrin ag achosion addasrwydd i ymarfer, gan ddileu unrhyw gamau pwyllgor diangen, er mwyn gwella effeithlonrwydd, amseroldeb a chosteffeithiolrwydd ein gweithdrefnau a chymryd camau i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd yn gyflymach pan fo angen.[32]

- Rydym wrthi'n ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch yr opsiwn o gyflwyno proses waredu gydsyniol - lle mae nyrsys a bydwragedd sy'n cytuno bod eu haddasrwydd i ymarfer yn ddiffygiol yn derbyn cosb yn wirfoddol – yn ogystal â newidiadau eraill i wella'r modd rydym yn rheoli achosion addasrwydd i ymarfer.[33]

- Rydym yn cynyddu nifer y gwrandawiadau ffurfiol a drefnir ar gyfer pob diwrnod gwaith.

- Rydym yn mynd i'r afael â'r nifer fawr o achosion sy'n cael eu gohirio, yn enwedig lle y caiff achosion eu gohirio ar ôl cael eu gwrando'n rhannol, gan gynnwys drwy hyfforddi aelodau paneli sut i reoli achosion a chyflwyno proses or-restru er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o'n capasiti o ran gwrandawiadau.

- Rydym bellach yn atgyfeirio achosion at gyflogwyr os ydym o'r farn nad yw honiad yn ddigon difrifol i gymryd camau rheoleiddio.

**Ein perfformiad:**

Rydym wedi pennu targedau perfformiad clir ar gyfer gwella amseroldeb ymdrin ag achosion.

- Caiff gorchmynion dros dro eu gosod o fewn 28 diwrnod i gael atgyfeiriad os oes risg ddifrifol ac uniongyrchol i'r cyhoedd. Yn 2011-2012, y canolrif a gyflawnwyd oedd 28 diwrnod a'r amser cyfartalog a gymerwyd oedd 29.8 diwrnod.

- 12 mis rhwng cael yr atgyfeiriad a chwblhau'r cam ymchwilio. Yn 2011-2012, yr amser cyfartalog a gymerwyd ar gyfer pob achos oedd 17.6 mis.

- Chwe mis rhwng cwblhau'r ymchwiliad ac ymarfer rhestru cyntaf y gwrandawiad terfynol. Yn 2011-2012, yr amser cyfartalog a gymerwyd ar gyfer pob achos oedd 9.8 mis.

Effeithiwyd ar ein perfformiad gan achosion "hanesyddol": hynny yw, achosion a gafwyd

32 www.nmc-uk.org/rules
33 www.nmc-uk.org/Get-involved/Consultations/NMC-consultation-on-fitness-to-practise-case-management-and-consensual-disposal

cyn i'n rhaglen wella ddechrau ym mis Ionawr 2011. Rydym wedi pennu mesurau penodol i ymdrin â'r achosion hyn a'n nod yw penderfynu ar bob achos "hanesyddol" erbyn mis Ebrill 2013.

Dylai'r newidiadau rydym eisoes wedi'u gwneud i'r rheolau a'r newidiadau rydym yn eu cynnig, ynghyd â'r cyllid ychwanegol sylweddol rydym wedi'i ddyrannu i'n gwaith addasrwydd i ymarfer yn 2012-2013, ein galluogi i wneud cynnydd pellach tuag at gyflawni'r targedau hyn.

**Ein gwasanaeth cwsmeriaid:**

- Ym mis Awst 2011, cyflwynwyd adduned gwasanaeth cwsmeriaid newydd. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i hysbysu cyfranogwyr mewn achosion addasrwydd i ymarfer o'n penderfyniadau o fewn pum diwrnod gwaith. Llwyddwyd i wneud hynny mewn 86 y cant o achosion ym mis Mawrth 2012.

- Mae ffurflen werthuso cwsmeriaid bellach yn cael ei hanfon at bob cyfranogwr ar ddiwedd pob achos er mwyn nodi dysgu pellach a phwyntiau i'w gwella.

- Rydym yn mynd i'r afael ag ansawdd ein prosesau cyfathrebu drwy roi mwy o gymorth i baneli, hyfforddi staff a darparu gwell deunydd cyfeirio a llythyrau templed ar gyfer staff. Rydym yn esbonio'r rhesymau dros ein penderfyniadau yn gliriach ac yn llawnach, yn darparu manylion ein safonau gwasanaeth cwsmeriaid ac yn rhoi manylion cyswllt uniongyrchol staff.

- Mae gan ein swyddogion cymorth gwrandawiadau gyfrifoldebau penodol dros roi gofal priodol a diwallu anghenion tystion.

**Gwella prosesau gwneud penderfyniadau:**

- Recriwtiwyd 98 o gadeiryddion paneli â chymwyseddau penodol yn ymwneud â rheoli gwrandawiadau. Ar ôl eu penodi ym mis Mawrth 2012, cwblhaodd y cadeiryddion newydd raglen sefydlu a hyfforddiant yn llwyddiannus erbyn mis Ebrill 2012.

- Gwnaethom wella'r cymorth a roddir i gadeiryddion paneli a phanelwyr gan ein Tîm Cymorth i Baneli drwy ddarparu hyfforddiant, canllawiau ac adborth. Gwerthfawrogwyd gwaith y tîm yn fawr gan aelodau paneli.

- Adolygwyd ein canllawiau i aelodau paneli gan gynnwys ein canllawiau ar wneud a chofnodi penderfyniadau. Yn ddiweddar, gwnaethom ymgynghori â'r cyhoedd ar ganllawiau cynhwysfawr y bwriedir iddynt helpu aelodau paneli pan fyddant yn ystyried y materion y dylid rhoi sylw iddynt wrth benderfynu ar y gosb briodol i'w gosod.

- Sefydlwyd grŵp mewnol sy'n cyfarfod bob mis i adolygu penderfyniadau paneli, gan gynnwys penderfyniadau i ohirio achosion. Caiff dysgu a nodwyd gan y grŵp ei gyfleu i aelodau paneli a staff Addasrwydd i Ymarfer a rhoddir rhagor o gymorth ac arweiniad i aelodau paneli gan ein Tîm Cymorth i Baneli.

- Cyflwynwyd rhaglen strwythuredig o archwiliadau sicrhau ansawdd er mwyn nodi rhagor o feysydd i'w gwella.

Effeithiwyd ar ein gallu i ymdrin ag achosion yn gyflymach a gwella ansawdd ein gwaith gan y nifer fawr o achosion mwyfwy cymhleth a gawn. Bu'r adnoddau ychwanegol a fuddsoddwyd eleni o gymorth, ond rydym yn ymwybodol bod gan ein swyddogion lwythi gwaith unigol trwm iawn.

O gofio'r cynnydd yn nifer yr achosion newydd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym yn gweithio'n rhagweithiol gyda chyflogwyr i'w helpu i ddeall yn well pryd y dylent atgyfeirio achosion atom, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru.
Mae ein Pennaeth Cyswllt Allanol yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogwyr ac mae ar gael i roi cyngor i Gyfarwyddwyr Nyrsio a swyddogion bydwreigiaeth awdurdodau goruchwylio lleol drwy ein llinell gymorth benodol.

Ceir gwybodaeth fanylach am ein gwaith addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys nifer yr achosion yr ymdriniwyd â hwy a'r canlyniadau, yn ein Hadroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol ar gyfer 2011-12, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

| Nod 2<br><br>Ein Rhanddeiliaid | Bydd gennym gydberthnasau agored ac effeithiol a fydd yn ein galluogi i weithio er budd y cyhoedd |
|---|---|

**Cyfathrebu â chleifion a'r cyhoedd**

Mae'n anochel y bydd methiannau gofal uchel eu proffil megis y rhai a welwyd yn Winterbourne View a Stepping Hill yn creu cryn dipyn o bryder ymhlith y cyhoedd. Rydym wedi ymateb yn brydlon a chymryd camau effeithiol pryd bynnag rydym wedi cael gwybodaeth sy'n awgrymu bod nyrsys neu fydwragedd cofrestredig yn peri risg i ddiogelwch y cyhoedd. Ar yr un pryd rydym wedi ceisio rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a chynnal eu hyder yn y proffesiynau drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ein gweithredoedd a sut rydym yn eu diogelu. Rydym yn atgoffa nyrsys a bydwragedd yn gyson, os ydynt yn methu â rhoi gwybod am bryderon ynghylch gofal cleifion, eu bod yn torri eu rhwymedigaethau proffesiynol.

**Diogelu'r cyhoedd**

**Rydym wedi:**

- Cyhoeddi *Complaints against nurses and midwives: Helping you support patients and the public*: canllaw hawdd ei ddarllen i helpu'r sefydliadau hynny sy'n rhoi cymorth i gleifion a'r cyhoedd i ddeall ein rôl yn well, gyda chymorth ein grŵp cynnwys cleifion a'r cyhoedd. [34]

- Llunio canllaw i'r cyhoedd ar y cyd â rheoleiddwyr gofal iechyd eraill: *Who regulates health and social care professionals?* [35]

- Anfon cylchlythyr e-bost chwarterol at 9,100 o aelodau'r cyhoedd.

- Gweithio ar strategaeth newydd i'n helpu i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, cleifion a'r cyhoedd yn fwy effeithiol a sicrhau bod eu barn yn llywio ein gwaith. Dyma un o'r meysydd allweddol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn y flwyddyn sydd i ddod.

**Dylanwadu ar ymddygiad nyrsys a bydwragedd**

Llwyddwyd i ddarparu rhaglen sylweddol o ddigwyddiadau ym mhob un o'r pedair gwlad er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Nyrsio, Goruchwylwyr Bydwragedd, darparwyr addysg a'r cyhoedd. Roedd yr adborth a gasglwyd gan gyfranogwyr yn gadarnhaol tu hwnt wrth awgrymu bod y digwyddiadau yn cynyddu hyder yn y CNB ac yn meithrin dealltwriaeth o'n rôl a sut rydym yn gwneud ein gwaith. Roedd y digwyddiadau hefyd yn gyfrwng i wella dealltwriaeth o'n prosesau addasrwydd i ymarfer, yn ogystal â sicrhau mewnbwn i brosiectau mawr megis ein gwaith ar ailddilysu.

[34] www.nmc-uk.org/Publications/Information-for-the-public
[35] www.nmc-uk.org/Publications/Information-for-the-public

Rydym yn sicrhau bod nyrsys a bydwragedd yn cael y newyddion diweddaraf am ddatblygiadau proffesiynol a rheoleiddiol drwy ddiweddariadau, cylchlythyrau ac e-gyfathrebiadau rheolaidd, yn ogystal â chyfryngau cymdeithasol.

Mae ein cyngor blaenllaw ar ddefnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan nyrsys, bydwragedd a myfyrwyr wedi'i gydnabod yn eang am osod meincnod gan sefydliadau proffesiynol eraill y tu allan a'r tu mewn i'r sector iechyd.[36]

**Gweithio ar draws y pedair gwlad**

Wrth i bolisïau gofal iechyd barhau i ymwahanu ar draws y pedair gwlad, mae ein hymdrechion i atgyfnerthu cydberthnasau ac ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid allweddol, rheoleiddwyr eraill, llunwyr polisi, sefydliadau cleifion ac eraill yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi cael derbyniad cadarnhaol. Roedd ein rôl gyswllt benodol a'r penderfyniad i agor ein swyddfa yng Nghaeredin yn gamau pwysig sydd wedi gwella lefel ac ansawdd ein rhyngweithio yn sylweddol, yn ogystal â'n hymwybyddiaeth ein hunain o'r amrywiaeth hanesyddol, diwylliannol, economaidd a chymdeithasol ledled y DU.

**Y Llywodraeth ac ymgysylltu strategol**

Yn ogystal â'n gwrandawiad atebolrwydd â'r Pwyllgor Iechyd ym mis Gorffennaf 2011, roedd yn bleser gennym roi tystiolaeth i ymchwiliad y pwyllgor i addysg, hyfforddiant a gwaith cynllunio'r gweithlu. Gwnaethom hefyd gyfrannu tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Chwaraeon Senedd yr Alban i'r modd y caiff gofal i bobl hŷn ei reoleiddio ac i Gynulliad Gogledd Iwerddon ar ddiwygio Swyddfa Ombwdsmon Gogledd Iwerddon.

Rydym yn cyfarfod â rheoleiddwyr proffesiynol eraill bob chwarter i rannu gwybodaeth ac arfer da a nodi cyfleoedd i gydweithio ar ystod eang o faterion gan gynnwys, er enghraifft, ar fframwaith arweinyddiaeth y GIG. Rydym wedi ymgysylltu ag Addysg GIG yr Alban ac Addysg Iechyd Lloegr (HEE) ac wedi cyfrannu at weithgor Ffactorau Dynol y GIG a gadeirir gan Syr Bruce Keogh. Rydym yn cymryd rhan yn Fforwm Nyrsio ac Ansawdd Gofal y Prif Weinidog ac yn ymgysylltu ag Ymchwiliad Addysg Cenedlaethol y Coleg Nyrsio Brenhinol.

Rhoesom dystiolaeth i'r Ymchwiliad Cyhoeddus i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford (Ymchwiliad Francis)[37] ac rydym wrthi'n paratoi i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion sy'n effeithio ar y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth a'r modd y rheoleiddir gofal iechyd pan gaiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ddiwedd 2012. Gwnaethom gyfrannu at adolygiad Comisiwn y Gyfraith o'r modd y rheoleiddir gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n debygol o fod â goblygiadau sylweddol i ni a rheoleiddwyr gofal iechyd eraill.[38]

---

[36] www.nmc-uk.org/Nurses-and-midwives/Advice-by-topic/A/Advice/Social-networking-sites
[37] www.midstaffspublicinquiry.com
[38] lawcommission.justice.gov.uk/consultations/healthcare.htm

| Nod 3<br><br>Ein Staff | Bydd gan ein staff y sgiliau, y wybodaeth a'r systemau ategol sydd eu hangen i'n helpu i ddarparu gwasanaethau ardderchog i'r cyhoedd a'r bobl a reoleiddir gennym |
|---|---|

**Ein pobl**

Fel rhan o'n rhaglen rheoli newid, rydym yn datblygu Strategaeth Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau bod gennym y sgiliau, yr arbenigedd a'r adnoddau cywir o fewn ein staff i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd. Rydym yn newid y ffordd rydym yn gweithio er mwyn sicrhau ein bod yn fwy darbodus, effeithlon ac effeithiol a bod gennym yr adnoddau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r gwelliannu sydd eu hangen i'n swyddogaeth addasrwydd i ymarfer a swyddogaethau rheoleiddio craidd eraill.

**Rydym wedi**:

- Mabwysiadu dulliau amgen o recriwtio ac rydym yn gwneud mwy o ddefnydd o gontractau tymor sefydlog yn lle staff asiantaeth, gan gynnwys ein cyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer, er mwyn lleihau costau recriwtio.

- Lleihau absenoldeb heb ei gynllunio i 2.11 y cant, ar gyfartaledd (islaw safonau'r GIG, sef 4 y cant).

- Parhau i sicrhau bod gan ein staff yr adnoddau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel gan gynnwys drwy gyrsiau e-ddysgu a rhaglenni datblygu i reolwyr canol a goruchwylwyr rheng flaen.

- Gwella prosesau cyfathrebu â staff drwy gynnal sesiynau briffio rheolaidd i staff ac arolygu staff er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu ein strategaeth cyfathrebu mewnol yn y dyfodol.

- Ehangu’r Grŵp Ymgynghori â Staff a diweddaru ei gyfansoddiad.


- Rhoi cam un o system adnoddau dynol a chyflogres newydd ar waith. Mae hyn wedi ein galluogi i leihau beichiau biwrocrataidd, cyflwyno slipiau cyflog electronig, a gwella gwybodaeth reoli am absenoldeb oherwydd salwch, swyddi gwag, sefydlu a chofnodi data ymadael.

**Defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol**

Mae gwaith i barhau i wella ein gwasanaeth cyllid a gwasanaethau cymorth corfforaethol eraill wedi bod yn mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn. Buom yn gweithio gyda rheoleiddwyr iechyd eraill ar feincnodi ac arfer gorau, yn ogystal â chyfrannu at adolygiad y CHRE o gosteffeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ym mhob rhan o'r sector.

Dengys y siart canlynol wariant ar ein swyddogaethau rheoleiddio craidd ynghyd â llywodraethu a gwasanaethau corfforaethol a chyfathrebu yn ystod 2011-12.

**Ble yr aeth yr arian 2011- 2012**




O gofio'r heriau sylweddol sy'n ein hwynebu, sefydlwyd Grŵp Adolygu Cyllid ar gyfer y Cyngor i asesu'r sefyllfa ariannol yn fanwl. Mae'r Grŵp wedi canolbwyntio i ddechrau ar oruchwylio'r gwaith o lunio strategaeth ariannol hirdymor ddiwygiedig i fynd i'r afael â'r buddsoddiad sylweddol sydd ei angen yn ein swyddogaeth addasrwydd i ymarfer. Mae hyn wedi cynnwys ailseilio'r gyllideb ar gyfer 2012-2013 er mwyn ystyried tybiaethau diwygiedig ynghylch ein llwyth gwaith addasrwydd i ymarfer a'r angen i fuddsoddi mewn gwella ein systemau TG.

Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ac effeithlon o'r holl adnoddau sydd ar gael i ni. Ym mis Medi 2011, sefydlwyd bwrdd effeithlonrwydd i nodi a chyflawni arbedion o'n rhaglen gwella addasrwydd i ymarfer. Mae'r bwrdd hwn bellach wedi'i ymestyn i gwmpasu'r sefydliad cyfan ac mae ei waith yn cael ei oruchwylio gan Grŵp Adolygu Cyllid y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi ystyried y sefyllfa'n fanwl ac rydym o'r farn ein bod bellach wedi llunio cynllun ariannol realistig ar gyfer y tair blynedd nesaf a fydd yn ein galluogi i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol tra'n cyflawni ein dyletswydd sylfaenol i ddiogelu'r cyhoedd.

Gwnaed gwelliannau hanfodol i'r systemau technoleg gwybodaeth craidd sy'n cefnogi ein swyddogaethau cofrestriadau ac addasrwydd i ymarfer. Fodd bynnag, bydd angen adnewyddu'r systemau hyn yn ystod y pum mlynedd nesaf er mwyn mynd i'r afael â diffygion a nodwyd. Bydd hyn hefyd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol. Rydym yn diwygio ein strategaeth TGCh er mwyn mynd i'r afael â'r datblygiadau hyn a datblygiadau tymor hwy eraill.

Mae costau sylweddol na ellir eu hosgoi yn gysylltiedig â chynnal gwrandawiadau er mwyn gwneud penderfyniadau terfynol ar achosion addasrwydd i ymarfer. Mae'r penderfyniad i gynyddu nifer y gwrandawiadau ffurfiol a gynhelir bob dydd yn golygu bod angen darparu llety ychwanegol.

Caffaelwyd swyddfeydd ychwanegol yn Llundain ar gyfer ein staff addasrwydd i ymarfer er mwyn i ni allu addasu'r llety presennol yn ystafelloedd dynodedig ar gyfer gwrandawiadau. Roeddem yn falch ein bod wedi cwblhau'r gwaith hwn a llwyddo i agor ein swyddfa yng Nghaeredin yn brydlon ac o fewn y gyllideb.

**Rydym wedi**:

- Llwyddo i drosglwyddo dros 9,000 o achosion addasrwydd i ymarfer wedi'u cau (gyda 250,000 o ddogfennau a delweddau cysylltiedig) i'n system rheoli achosion gyfredol. Bydd dadansoddiad o'r data hwn yn llywio'r sail dystiolaeth ar gyfer ein model ailddilysu, yn ogystal â pholisïau a safonau yn y dyfodol.

- Atgyfnerthu ein prosesau llywodraethu gwybodaeth a diogelwch ein gwybodaeth drwy:

  - Diweddaru ein polisïau a'n gweithdrefnau.

  - Cyflwyno trefniadau newydd ar gyfer rhoi gwybod am achosion o dorri rheolau diogelwch.

  - Cyflwyno hyfforddiant i bob aelod o staff.

  - Llunio dadansoddiad o fylchau mewn diogelwch.

- Llwyddo i drosglwyddo i un system teleffoni newydd ym mhob un o safleoedd y CNB er mwyn ei gwneud yn haws i unigolion gysylltu â ni a gwella ein heffeithlonrwydd a'n heffeithiolrwydd.

- Profi ein trefniadau ar gyfer sicrhau parhad busnes a rhoi cynlluniau ar waith er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i weithredu'n effeithiol yn ystod Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012.

## 5. Cynllun Strategol 2012–2015

Rydym yn glir bod yn rhaid cyfeirio ein holl egnïon ac adnoddau at ein dyletswydd statudol sylfaenol, sef diogelu'r cyhoedd. Wrth bennu ein cynllun corfforaethol ar gyfer 2012-2015, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ein tri nod strategol ar ddiogelu iechyd a lles y cyhoedd.

**Diogelu:** Bydd diogelwch y cyhoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Bydd ein gwaith yn seiliedig ar y buddiannau y gallwn eu cynnig i'r cyhoedd ac yn cael ei fesur yn eu herbyn.

I gyflawni hyn byddwn yn gwneud y canlynol:

- Diogelu iechyd a lles y cyhoedd drwy gadw cofrestr gywir hygyrch o bob nyrs a bydwraig y mae'n ofynnol iddi ddangos ei bod yn parhau i fod yn addas i ymarfer.
- Gosod safonau addysg ac ymarfer priodol a sicrhau ansawdd rhaglenni addysg a bod bydwragedd yn cael eu goruchwylio fel y gallwn fod yn sicr bod pawb ar ein cofrestr yn addas i ymarfer fel nyrsys a bydwragedd.
- Cymryd camau cyflym a theg i ymdrin ag unigolion y mae amheuaeth ynghylch eu huniondeb neu eu gallu i ddarparu gofal diogel fel y gall y cyhoedd fod yn hyderus yn ansawdd y gofal a'r safonau gofal a ddarperir gan nyrsys a bydwragedd.
- Gwella ein dealltwriaeth o ddata amrywiaeth a'r defnydd a wnawn ohono, gan ymgorffori arfer gorau ym maes cydraddoldeb er mwyn sicrhau ein bod yn gynhwysol ac yn trin pobl yn deg.

**Rhanddeiliaid:** Bydd gennym gydberthnasau agored ac effeithiol a fydd yn ein galluogi i weithio er budd y cyhoedd.

I gyflawni hyn byddwn yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod gennym gydberthnasau rheoleiddiol agored ac effeithiol â chleifion a'r cyhoedd, rheoleiddwyr eraill, cyflogwyr a'r proffesiynau sy'n ein helpu i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ymddygiad nyrsys a bydwragedd er mwyn sicrhau mai gofalu am bobl yw eu prif flaenoriaeth a'u bod yn eu trin fel unigolion ac yn parchu eu hurddas.
- Datblygu a chynnal prosesau cyfathrebu adeiladol ac ymatebol er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael digon o wybodaeth am y safonau gofal y dylent eu disgwyl gan nyrsys a bydwragedd a rôl y CNB pan na chyrhaeddir safonau.

**Staff:** Bydd gan ein staff y sgiliau, y wybodaeth a'r systemau ategol sydd eu hangen i'n helpu i ddarparu gwasanaethau ardderchog i'r cyhoedd a'r bobl a reoleiddir gennym.

I gyflawni hyn byddwn yn gwneud y canlynol:

- Datblygu polisïau effeithiol, gwasanaethau effeithlon a phrosesau llywodraethu sy'n helpu ein staff i gyflawni pob un o'n swyddogaethau.

- Meithrin diwylliant o ragoriaeth drwy ddenu, cadw a datblygu staff o ansawdd uchel i ddarparu ein gwasanaethau.

Gwyddom, er mwyn cyflawni ein nodau a'n hamcanion, fod angen i ni drawsnewid y CNB yn rheoleiddiwr mwy darbodus, effeithlon ac effeithiol. Golyga hyn fynd i'r afael â heriau mewnol a nodwyd gan Adolygiad Strategol y CHRE, yn ogystal â gwella ein perfformiad er mwyn cyrraedd safonau rheoleiddio da y CHRE. Ein rhaglen rheoli newid uchelgeisiol, a ddisgrifir isod, fydd y cyfrwng ar gyfer llywio'r broses drawsnewid hon yn ystod y 12 i 18 mis nesaf. Er mwyn cyflawni hyn gwyddom fod angen i ni ailganolbwyntio ar allu ac arweinyddiaeth sefydliadol.

**Byddwn yn atgyfnerthu ein gallu drwy:**

- Sicrhau bod yr uwch dîm arwain yn pennu cyfeiriad a diben clir, yn dangos ymddygiad cadarnhaol, yn arddel gwerthoedd a rennir ac yn ymgorffori diwylliant sy'n ysbrydoli ac yn llywio sut mae'r sefydliad yn gweithio yn y dyfodol.
- Datblygu fframwaith llywodraethu sy'n addas at y diben ac yn atgyfnerthu cydymffurfiaeth ym mhob rhan o'r sefydliad.
- Ymgorffori prosesau gwneud penderfyniadau tryloyw ar bob lefel gyda ffiniau pendant rhwng atebolrwydd a chyfrifoldeb.

**Er mwyn cefnogi hyn byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Datblygu gallu sefydliadol wedi'i ategu gan rolau a chyfrifoldebau pendant.
- Ymgorffori arferion gwaith effeithiol a gwerthoedd a rennir.
- Creu systemau busnes a swyddogaethau cymorth cadarn.
- Sicrhau bod gwybodaeth reoli gywir ar gael i lywio prosesau gwneud penderfyniadau cadarn.
- Datblygu mesurau perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn ysgogi effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithredol ac yn ein helpu i asesu pa mor dda rydym yn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd.

Mae ailstrwythuro'r sefydliad yn elfen allweddol o'n rhaglen rheoli newid a bydd hyn yn lleihau nifer y cyfarwyddiaethau o saith i bedair ac yn cyflwyno ffyrdd newydd o weithio. Rydym yn datblygu ein Strategaeth Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau bod ein staff yn cael y cymorth a'r adnoddau i gyflawni'r mesurau diogelu y mae'r cyhoedd, yn gywir ddigon, yn eu mynnu, gan gynnwys yn ystod y cyfnod trosiannol.

Y brif her sy'n ein hwynebu yw sicrhau bod gennym sail ariannol gynaliadwy i'n galluogi i barhau â'n lefel bresennol o weithgarwch er mwyn ymdrin â'n llwyth gwaith addasrwydd i ymarfer. Mae hyn, ynghyd â chostau ein swyddogaethau rheoleiddio a chymorth craidd eraill, yn golygu bod angen i ni gynyddu ein hincwm. Felly, rydym wedi ymgynghori ar gynigion i gynyddu ffioedd cofrestru i lefel a fydd yn ein galluogi i barhau i gyflawni ein dyletswydd statudol i ddiogelu'r cyhoedd. Byddwn yn rhoi'r wedd derfynol ar ein strategaeth yn sgil ymatebion i'n hymgynghoriad cyhoeddus ac yn penderfynu ar unrhyw newidiadau i'n ffioedd yn ystod hydref 2012.

Ar yr un pryd, mae angen i ni ddangos bod ein hadnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol. Felly, rydym yn rhoi strategaeth gosteffeithiolrwydd a rhaglen effeithlonrwydd ar waith ym mhob rhan o'r sefydliad.

Bydd angen buddsoddiad sylweddol yn ein systemau TGCh er mwyn cyflawni ein swyddogaethau cofrestriadau ac addasrwydd i ymarfer craidd yn effeithlon ac yn effeithiol er mwyn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar gleifion a'r cyhoedd. Ein nod yw gwneud penderfyniadau ar ein strategaeth TG hirdymor yn ystod 2012-13.

Bwriedir i bob un o'r mesurau hyn ein helpu i gyflawni'r heriau rheoleiddiol allweddol sy'n ein hwynebu yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n sylweddol yn ein rhaglen gwella addasrwydd i ymarfer fel y byddwn yn cyflawni ein targedau allweddol erbyn diwedd 2014:

- Dechrau'r cam dyfarnu (y penderfyniad terfynol) ar bob achos cyn mis Ionawr 2011.
- Cwblhau gwaith ymchwilio i bob achos o fewn 12 mis a dechrau'r cam dyfarnu (y penderfyniad terfynol) o fewn chwe mis i gwblhau'r ymchwiliadau hynny.
- Cyflawni'r gwelliannau sylweddol yn ansawdd ein penderfyniadau a'r gofal cwsmeriaid a ddarparwn i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn achosion addasrwydd i ymarfer.

Rydym hefyd wedi dechrau ar raglen waith fawr i gyflwyno system ailddilysu er mwyn rhoi mwy o hyder i'r cyhoedd a chleifion fod nyrsys a bydwragedd yn parhau i fod yn addas i ymarfer pan adnewyddir eu cofrestriad. Yn dilyn ymgynghoriad eang a chynhwysfawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, byddwn yn datblygu ein safonau drafft yn ystod 2012 ac yn nodi dysgu o'n harchwiliad Prep a ffynonellau eraill o dystiolaeth sydd ar gael i ni er mwyn sicrhau bod ein dull gweithredu yn gymesur ac yn effeithiol. Rydym yn bwriadu cyflwyno ein system ailddilysu yn 2014.

# 6. Adolygiad ariannol

Roedd yr adnoddau net sy'n mynd allan ar gyfer y flwyddyn yn cyfateb i (£8,410,000) (2010-2011: adnoddau net sy'n dod i mewn £7,751,000).

Mae'r cronfeydd wrth gefn a oedd yn werth £41.7 miliwn ar 31 Mawrth 2012 yn cynnwys gwerth prydles swyddfeydd y Cyngor yn 23 Portland Place, sy'n cynnwys cymal defnyddwyr cyfyngol. Cafodd y brydles ei hailbrisio ar 31 Mawrth 2010 ar sail defnydd presennol ac roedd yn werth £13.75 miliwn.

Yn ystod y flwyddyn cyfanswm yr incwm oedd £52,781,000 (2010-2011: £52,467,000) ac roedd yn cynnwys incwm o ffioedd o £51,581,000 (2010-2011: £51,397,000) ac incwm o fuddsoddiadau o £1,200,000 (2010-2011: £876,000).

Yn ystod y flwyddyn cafwyd cyfanswm gwariant o £61,191,000 (2010-2011: £44,716,000). Dadansoddir hyn ymhellach yn nodyn 11 i'r cyfrifon.

Mae'r cynnydd mewn gwariant yn 2011-2012 i'w briodoli'n bennaf i fuddsoddiad uwch mewn gweithgarwch addasrwydd i ymarfer, er mwyn rheoli nifer gynyddol o achosion mwy cymhleth. Cynlluniwyd ar gyfer diffyg yn 2011-2012, yn gyson â'r nod o gynnal cronfeydd wrth gefn digonol fel sy'n ofynnol gan ein polisi cronfeydd wrth gefn.

Fodd bynnag, er mwyn ymdrin â'n llwyth gwaith addasrwydd i ymarfer, rydym yn rhagweld y bydd ein gwariant yn parhau i gynyddu yn 2012-2013 ac ar ôl hynny. Er mwyn parhau â'r lefel hon o weithgarwch nid yw ein lefel gyfredol o incwm yn gynaliadwy. Ni fyddai gennym unrhyw ddewis ond cwtogi ar ein gweithgarwch addasrwydd i ymarfer fel y gallem weithredu o fewn ein cyllideb. Fodd bynnag, byddai hynny'n golygu esgeuluso ein dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd. Am y rheswm hwn, rydym wedi ymgynghori ar gynnydd posibl yn ein ffi gofrestru flynyddol a byddwn yn gwneud penderfyniad yn ddiweddarach eleni.

## Polisi cronfeydd wrth gefn

Mae polisi cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i gronfeydd wrth gefn rhydd gyfateb i o leiaf dri mis o wariant gweithredu a gyllidebwyd, yn ogystal â swm i gwmpasu cyfran amcangyfrifedig y CNB o'r diffyg pensiwn yn seiliedig ar brisiad diweddaraf y cynllun pensiwn. Ystyrir bod y lefel hon o gronfeydd wrth gefn yn briodol, o gofio sefydlogrwydd cymharol sail incwm y CNB. Ystyrir ei bod yn ddigonol i gyflawni blaenoriaethau gweithredu'r CNB a'r gofynion o ran cyfalaf gweithio os bydd amgylchiadau sylweddol nas cynlluniwyd.

Adolygir y polisi cronfeydd wrth gefn gan y Cyngor fel rhan o'r broses gynllunio flynyddol ac fel elfen graidd o strategaeth ariannol y CNB. Gellir lleihau cronfeydd wrth gefn rhydd o'r lefel sy'n ofynnol gan y polisi, ond dim ond mewn amgylchiadau lle y ceir cynllun clir a chadarn ar gyfer eu cynyddu unwaith eto i'r lefel ofynnol. Adolygir lefel y cronfeydd wrth gefn rhydd gan y Cyngor yn fisol.

Roedd cronfeydd wrth gefn rhydd y CNB yn £23,133,000 ar 31 Mawrth 2012 (£32,547,000 ar 31 Mawrth 2011). Mae hyn yn unol â'r polisi cronfeydd wrth gefn.

## Polisi buddsoddi

Mae gan y CNB y pŵer i fuddsoddi ei gronfeydd gwarged fel sy'n briodol yn ei farn ef i gynhyrchu incwm i'r Cyngor. Ar hyn o bryd mae gan y CNB bolisi buddsoddi ffurfiol, sy'n golygu mai dim ond buddsoddiadau â risg isel, os o gwbl, y gellir eu gwneud.

Cedwir cronfeydd y CNB yng nghyfrifon adneuo llog sefydlog pump o fanciau stryd fawr y DU. Y refeniw a gynhyrchwyd o'r buddsoddiad yn 2011-2012 oedd £1,200,000 (2010-2011: £876,000).

## Asedau sefydlog

Rhoddir gwybodaeth am newidiadau i asedau sefydlog diriaethol yn nodyn 14 i'r cyfrifon. Cost ychwanegiadau asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn oedd £3,874,000.

Cafwyd tri phrosiect cyfalaf mawr a oedd yn cynnwys llety yn ystod y flwyddyn, sef ailgyfarparu adeiladau swyddfa a rentir ar brydles yn Clarendon House, 114-116 George Street, Caeredin, ac yn 1 Kemble Street, Llundain, ac addasu adeiladau swyddfa a rentir ar brydles yn 61 Aldwych, Llundain, yn lleoliad penodol ar gyfer cynnal gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer sy'n cynnwys deg ystafell wrando. Cost net y prosiectau hyn yn 2011-2012 oedd £2,975,000.

**Yr Athro Judith Ellis MBE**
**Dirprwy Gadeirydd**

**CNB**
**4 Medi 2012**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro**
**CNB**
**4 Medi 2012**

# 7. Adroddiad cydnabyddiaeth

Archwilir yr agweddau ariannol ar yr adroddiad hwn gan archwilwyr annibynnol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

**Lwfansau a threuliau aelodau'r Cyngor**

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r CNB ac mae wedi'i awdurdodi i wneud penderfyniadau terfynol fel y disgrifir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (adran 9). Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr y CNB.

Yr Athro Tony Hazell oedd Cadeirydd y Cyngor o 1 Ebrill 2011 nes iddo ymddiswyddo ar 31 Mawrth 2012. Penodwyd yr Athro Judith Ellis, MBE yn Is-gadeirydd y Cyngor o 1 Ebrill 2012.

Nid yw aelodau'r Cyngor yn cael cydnabyddiaeth am eu gwasanaethau ond maent yn cael lwfans blynyddol o £12,000 sy'n seiliedig ar y gofyniad bod aelodau yn treulio dau i dri diwrnod y mis ar fusnes y CNB. Mae'r Cadeirydd yn cael lwfans blynyddol o £48,000 yn seiliedig ar y gofyniad i dreulio dau i dri diwrnod yr wythnos ar fusnes y CNB. Telir lwfans mynychu o £260 y dydd am weithgarwch hyfforddi a sefydlu cyn cychwyn ar swydd.

Talwyd cyfanswm o £200,000 mewn lwfansau i aelodau'r Cyngor yn 2011-2012 (2010-2011: £204,780). Rhoddir manylion llawn y symiau a dalwyd yn y tabl ar dudalen 35.

Ni wnaed unrhyw daliadau arbennig i unrhyw aelod o'r Cyngor yn 2011-2012.

Telir lwfans i aelodau'r Cyngor ac aelodau pwyllgorau drwy gyflogres ar wahân ar ôl didynnu treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol. Ad-delir treuliau yr eir iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau yn unol â pholisi Teithio a Chynhaliaeth i aelodau'r CNB.

Lle y cynhelir cyfarfodydd yn Llundain, ystyrir bod treuliau yn fuddiant mewn da trethadwy. Mae'r CNB yn talu'r dreth incwm a'r yswiriant gwladol sy'n codi drwy gytundeb setliad TWE â CThEM. Yn 2011-2012, darparwyd £25,517 ar gyfer y rhwymedigaeth dreth hon mewn perthynas ag aelodau'r Cyngor (2010-2011: £24,394). Ni ellir datgelu'r dreth sy'n daladwy ar fuddiannau mewn da tybiedig ar gyfer pob aelod unigol o'r Cyngor, am fod cyfrifiad cyffredinol yn cael ei wneud sy'n seiliedig ar gyfanswm y treuliau a chyfran aelodau'r Cyngor ac aelodau partner pwyllgorau.

Mae'r treuliau y mae'r rhwymedigaeth dreth yn seiliedig arnynt wedi'u nodi yn y tabl canlynol.

| Aelodau'r Cyngor | **Lwfans a dalwyd i'r aelod 2011-2012 (£)** | Lwfans a dalwyd i'r aelod 2010-2011 (£) | **Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2011-2012 (£)** | Treuliau a dybiwyd yn fuddiant mewn da 2010-2011 (£) |
|---|---|---|---|---|
| Mrs A Aitken | 12,000 | 12,000 | 5,207 | 5,042 |
| Ms C Baron[39] | - | 9,000 | - | 1,527 |
| Dr K Bharj OBE | 12,000 | 12,000 | 4,578 | 2,590 |
| Yr Athro J Ellis MBE | 12,000 | 12,000 | - | - |
| Mrs J Fletcher | 12,000 | 12,000 | 3,373 | 2,653 |
| Yr Athro T Hazell – Cadeirydd | 48,000 | 48,000 | 16,711 | 15,740 |
| Mrs L Jacobs | 12,000 | 12,000 | 2,790 | 1,585 |
| Mrs G Nelson[40] | 11,000 | 12,000 | 2,739 | 2,789 |
| Mr G Owen | 12,000 | 12,000 | 2,172 | 2,707 |
| Mr D Pyle | 12,000 | 12,000 | 1,115 | 1,813 |
| Mrs C Rees-Williams | 12,000 | 12,000 | 2,190 | 1,410 |
| Yr Athro M Renfrew[41] | 9,000 | 12,000 | 2,519 | 3,694 |
| Ms R Sawtell | 12,000 | 12,000 | 694 | 502 |
| Mrs B Teuten | 12,000 | 3,780 | 433 | 133 |
| Yr Athro J Tunstill | 12,000 | 12,000 | 26 | - |

Mae aelodau partner, hynny yw, aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor ond sy'n aelodau o bwyllgorau, yn cael lwfans dyddiol o £260 a chostau teithio rhesymol.

Cafodd Julia Drown, aelod partner, ei phenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2010. Yn 2011-2012, cafodd lwfans mynychu o £2,080 am gyflawni'r swyddogaeth hon (2010-2011: £520), ac aeth i gostau yr ystyrir eu bod yn fuddiant mewn da o £248 (2010-2011: £93). Drwy gydol 2011-2012, parhaodd i wasanaethu fel aelod o Ymddiriedolwyr y Gronfa Bensiwn ac am gyflawni'r swyddogaeth hon cafodd lwfans mynychu o £1,820 (2010-2011: £1,560) a chostau yr ystyrir eu bod yn fuddiant mewn da o £99 (2010-2011: £529).

**Dulliau a ddefnyddiwyd i asesu perfformiad aelodau**

Cytunodd y Cyngor ar y system arfarnu ar gyfer ei aelodau yn 2010. Mae'r system yn seiliedig ar gymhwysedd, fel sy'n wir am lawer o systemau a ddefnyddir i adolygu aelodau bwrdd. Mae'r aelodau yn cwblhau ffurflen hunanarfarnu flynyddol ac yn cyfarfod â'r Cadeirydd i gael adborth a nodi unrhyw anghenion hyfforddi. At hynny, bu Cadeirydd y Cyngor yn destun proses arfarnu 360 gradd a oedd yn gynnwys adborth gan aelodau'r Cyngor, uwch aelodau o staff a rhanddeiliaid allanol.

[39] Rhoddodd y gorau i'w Swydd 31 Rhagfyr 2010
[40] Ymddiswyddodd 29 Chwefror 2012
[41] Rhoddodd y gorau i'w Swydd 31 Rhagfyr 2011

**Asesu Perfformiad yr Uwch Dîm Rheoli a Chydnabyddiaeth**

Mae'r uwch dîm rheoli (a elwir yn Grŵp Cyfarwyddwyr) yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a chyfarwyddwyr. Nid ydynt yn aelodau o'r Cyngor nac yn gweithredu fel ymddiriedolwyr y CNB.

Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw'r unig gyflogai a benodir yn uniongyrchol gan y Cyngor ac sy'n atebol iddo ac mae ganddo awdurdod i wneud penderfyniadau i'r graddau a ddisgrifir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (adran 9) fel y'i dirprwywyd gan y Cyngor. Felly, yr unig fanylion am gydnabyddiaeth a ddatgelir yn llawn yw'r rhai ar gyfer cyflogeion a gyflawnodd rôl y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ystod 2011-12.

Adolygir cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr yn flynyddol. Mae Grŵp y Cyfarwyddwyr yn cynnwys cyfarwyddwyr sy'n uniongyrchol atebol i'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd. Roedd unrhyw godiadau cyflog a wnaed yn ystod 2011-12 yn seiliedig ar y radd a ddyfarnwyd i'r unigolyn drwy'r broses adolygu perfformiad a datblygiad (PDR) flynyddol, a gynhelir ym mis Ebrill. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynghori'r Cadeirydd ar gydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd; wedyn mae'n rhoi cyngor i'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ar gydnabyddiaeth aelodau Grŵp y Cyfarwyddwyr. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynnwys tri aelod o'r Cyngor ac un aelod annibynnol. Mae rolau'r cyfarwyddwyr yn cael eu meincnodi'n rheolaidd gan drydydd partïon a rhoddir y wybodaeth hon i'r pwyllgor.

Fel arfer mae contract cyflogaeth y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r naill barti neu'r llall roi chwe mis o rybudd er mwyn terfynu'r contract. Ar gyfer uwch reolwyr y cyfnod yw tri mis.

O 16 Rhagfyr 2011, roedd Jackie Smith yn dirprwyo i'r Prif Weithredwr a oedd yn absennol oherwydd salwch ac fe'i penodwyd yn Brif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro yn ffurfiol ar 26 Ionawr 2012 ar ôl i'r cyn-Brif Weithredwr a Chofrestrydd ymddiswyddo ar 11 Ionawr 2012. Ei chydnabyddiaeth yn 2011-2012 ar gyfer y cyfnod o 16 Rhagfyr 2011 i 31 Mawrth 2012 oedd £45,194.

Mae Jackie Smith yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn y CNB (gweler nodyn 12). Mae manylion sefyllfa ei phensiwn fel a ganlyn:

> Roedd y cynnydd gwirioneddol yn ystod 2011-2012 yn ei phensiwn yn 60 oed rhwng £0 a £2,500 y fl.
>
> Petai'n cymryd yr uchafswm taliad arian parod di-dreth yn 60 oed, roedd y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y cyfandaliad hwn ar 31 Mawrth 2012 rhwng £7,500 a £10,000 ac roedd y cynnydd gwirioneddol yn ei phensiwn gweddilliol rhwng £0 a £2,500 y flwyddyn.
>
> Roedd y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2012 rhwng £0 a £5,000. Petai'n cymryd yr uchafswm taliad arian parod di-dreth yn 60 oed, roedd y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y cyfandaliad hwn ar 31 Mawrth 2012 rhwng £10,000-£15,000 a byddai hyn yn gadael pensiwn gweddilliol yn 60 oed ar 31 Mawrth 2012 rhwng £0 a £5,000 y flwyddyn.
>
> Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod buddiannau ar ddechrau'r flwyddyn oedd £19,000.

Y cynnydd gwirioneddol yn y gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn adrodd hyd 31 March 2012 (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant a chan ystyried cyfraniadau aelodau) yw £31,000.

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod buddiannau ar 31 Mawrth 2012 yw £63,000.[42]

Ni chafodd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Do unrhyw fuddiannau nad ydynt yn rhai arian parod (buddiannau mewn da) yn 2011-2012.

Dickon Weir-Hughes oedd Prif Weithredwr a Chofrestrydd y CNB ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2011 i 11 Ionawr 2012. Ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2011 ac 11 Ionawr 2012 talwyd £122,175 iddo ynghyd â thaliad o £77,500 mewn perthynas â'i gyfnod rhybudd cytundebol.

Roedd Dickon Weir-Hughes yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn y CNB tan 11 Ionawr 2012 (gweler nodyn 12). Mae manylion sefyllfa ei bensiwn ar 31 Mawrth 2012 ond sy'n ymwneud â buddiannau a gronnwyd rhwng 31 Mawrth 2011 ac 11 Ionawr 2012 fel a ganlyn:

Roedd y cynnydd gwirioneddol yn ystod 2011-2012 yn ei bensiwn yn 60 oed rhwng £0 a £2,500 y flwyddyn (2010-2011: rhwng £0 a £2,500).

Petai'n cymryd yr uchafswm taliad arian parod di-dreth yn 60 oed, roedd y cynnydd gwirioneddol yng ngwerth y cyfandaliad hwn ar 31 Mawrth 2012 rhwng £5,000 a £7,500 ac roedd y cynnydd gwirioneddol yn ei bensiwn gweddilliol rhwng £0 a £2,500 y flwyddyn.

Roedd y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2012 rhwng £30,000 a £35,000 y flwyddyn (31 Mawrth 2011 rhwng £30,000 a £35,000 y flwyddyn). Petai'n cymryd yr uchafswm taliad arian parod di-dreth yn 60 oed, roedd gwerth y cyfandaliad hwn ar 11 Ionawr 2012 rhwng £165,000 a £170,000 a byddai hyn yn gadael pensiwn gweddilliol rhwng £25,000 a £30,000 y flwyddyn.

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod buddiannau ar ddechrau'r flwyddyn oedd £483,000.

Y cynnydd gwirioneddol yn y gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod yn ystod 2011-2012, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant a chan ystyried cyfraniadau aelodau, oedd £20,000 (2010-2011: £10,000).

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod buddiannau ar 31 Mawrth 2012 oedd £707,000 (31 Mawrth 2011: £483,000). [43]

Ni chafodd Dickon Weir-Hughes unrhyw fuddiannau nad ydynt yn rhai arian parod (buddiannau mewn da) yn 2011-2012 (nac yn 2010-2011).

---

[42] Mae'r gwahaniaeth rhwng y gwerth trosglwyddo ar ddechrau'r flwyddyn, ynghyd â'r cynnydd gwirioneddol yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â'r gwerth trosglwyddo ar 31 Mawrth 2012 i'w briodoli i newidiadau yn y tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r gwerthoedd trosglwyddo ar y ddau ddyddiad gwahanol.
[43] Gweler y troednodyn blaenorol.

**Asesu perfformiad staff eraill a chydnabyddiaeth**

Caiff pob cyflogai gyfnod prawf o chwe mis ar ddechrau ei gyflogaeth ac mae'n rhaid iddo roi un i dri mis o rybudd gan ddibynnu ar y radd.

Caiff cydnabyddiaeth pob cyflogai arall ei adolygu bob blwyddyn hefyd. Fel gyda'r adolygiadau cyflog ar gyfer cyfarwyddwyr, yn ystod 2011-2012 gwnaed cysylltiad uniongyrchol rhwng sgôr APD pob unigolyn a'r hyn a ddyfarnwyd iddo yn yr adolygiad cyflog. Mae Grŵp y Cyfarwyddwyr yn gwneud penderfyniadau bob blwyddyn ar y cynnydd canrannol i'w gymhwyso at wahanol raddau APD pob cyflogai arall. Wrth wneud hynny, ystyriodd Grŵp y Cyfarwyddwyr fforddiadwyedd cyffredinol, cyfraddau costau byw, data meincnodi a data recriwtio a chadw. Er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob rhan o'r sefydliad, adolygwyd argymhellion rheolwyr ar gyfer graddau APD aelodau eu tîm gan reolwr rheolwyr ac wedyn gan Grŵp y Cyfarwyddwyr. Yn 2011-2012 daeth dyfarniadau cyflog i rym o 1 Ebrill 2011. Mae gan y CNB ddogfen gyfarwyddyd ar gyflogau sy'n cynnwys manylion llawn y ffordd y mae'r trefniadau cyflog yn gweithio.

Mae gan bob cyflogai hawl i ymuno â chynllun pensiwn y CNB o ddechrau ei gyflogaeth. Mae'r cyflogai yn cyfrannu 6 y cant o'i gyflog. Cyfraniad y cyflogwr yw 27.4%. Mae tua hanner y gweithlu yn aelodau o'r cynllun.

**Gwahaniaethau cyflog yn y CNB**

Mae'n ofynnol i ni ddatgelu'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn y sefydliad a chydnabyddiaeth ganolrifol gweithlu'r sefydliad.

Yr unigolyn a gafodd ei dalu fwyaf yn y CNB yn 2011-2012 oedd y cyn-Brif Weithredwr a Chofrestrydd (Dickon Weir-Hughes). Ei gydnabyddiaeth ar gyfer y cyfnod hyd at 11 Ionawr 2012 oedd £199,675, gan gynnwys taliad cytundebol yn lle rhybudd yn cyfateb i £77,500 (2010-2011: £141,695).

Roedd hyn 7.25 gwaith (2010-2011: 5.38 gwaith) yn fwy na chydnabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, sef £27,554 (2010-2011: £26,357). Mae'r cynnydd sylweddol yn y gymhareb yn 2011-2012 i'w briodoli i'r taliad cytundebol a wnaed i'r Prif Weithredwr yn lle rhybudd a ddisgrifiwyd uchod. Byddai cyfrifiad yn seiliedig ar gyflog blynyddol llawn arferol yn cynhyrchu cymhareb o 5.63 gwaith yn fwy na'r canolrif ar gyfer 2011-2012, cynnydd bach o gymharu â 2010-2011.

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, cyflog anghyfunol sy'n gysylltiedig â pherfformiad, buddiannau mewn da yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Ceir rhagor o wybodaeth am gydnabyddiaeth yn nodyn 12 i'r cyfrifon.

**Yr Athro Judith Ellis MBE**
**Dirprwy Gadeirydd**

**CNB**
**4 Medi 2012**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro**
**CNB**
**4 Medi 2012**

# 8. Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro mewn perthynas â'r cyfrifon

Paratoir y cyfrifon yn unol â'r cyfarwyddyd a gafwyd gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifyddu a Chyflwyno Adroddiadau (SoRP) gan Elusennau a bod y cyfrifon hefyd yn cydymffurfio â'r Safonau Cyfrifyddu cymwys a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu (Atodiad 1).

Mae Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi ac archwilio cyfrifon blynyddol. Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro (fel y Swyddog Cyfrifyddu) yn gyfrifol am baratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.

Mae'r gyfraith sy'n gymwys i elusennau a gofrestrir yng Nghymru a Lloegr a'r Alban yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen, yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r broses o ddefnyddio adnoddau'r elusen ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn rhaid iddynt wneud y canlynol:

- Dilyn y cyfarwyddiadau ar gyfrifon cymwys a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor.
- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson.
- Dilyn y dulliau gweithredu a'r egwyddorion a geir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau.
- Llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol.
- Paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol, onid yw'n amhriodol tybio y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu.
- Nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol.

Mae'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cyngor ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 a Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r Cyngor ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r Cyfrin Gyngor wedi penodi Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Nodir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol drosto, ac am gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan y Cyfrin Gyngor, ac a gyhoeddwyd yn Managing Public Money.

## Ein prif leoedd busnes

Er bod y CNB yn gweithio ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ei brif fannau busnes yw:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 23 Portland Place | 61 Aldwych | One Kemble Street | 114-116 George Street |
| London | London | London | Edinburgh |
| W1B 1PZ | WC2B 4AE | WC2B 4AN | EH2 4LH |

## Cynghorwyr y Cyngor

**Archwilwyr ar y Cyd**
haysmacintyre
Chartered Accountants
Fairfax House
15 Fulwood Place
London
WC1V 6AY

**Archwilwyr ar y Cyd**
Comptroller and Auditor General
National Audit Office
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP

**Bancwyr**
HSBC
117 Great Portland Street
London
W1A 4UY

**Cyfreithwyr**
Field Fisher Waterhouse
35 Vine Street
London
EC3N 2AA

**Archwilwyr Mewnol**
Parkhill
Hammersmith Hospital
South Admin Block
Du Cane Road
Hammersmith
London
W12 0HS

## Gwybodaeth archwilio berthnasol

Hyd y gwyddom, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y CNB yn ymwybodol ohoni. Rydym wedi cymryd yr holl gamau angenrheidiol i ddwyn ein sylw at unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a phennu bod archwilwyr y CNB yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

**Yr Athro Judith Ellis MBE**
**Dirprwy Gadeirydd**

**CNB**
**4 Medi 2012**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro**
**CNB**
**4 Medi 2012**

# 9. Datganiad Llywodraethu Blynyddol

## Cyflwyniad

Roedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (y CNB) yn wynebu cyfres o heriau mewnol yn ystod 2011-2012. Ym mis Ionawr 2012, gofynnodd yr Adran Iechyd i'r Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (CHRE) gynnal adolygiad strategol o'r sefydliad.[44] Cyhoeddodd y CHRE adroddiad interim ar 10 Ebrill 2012[45] ac adroddiad terfynol ar 3 Gorffennaf 2012.[46]

Ymdriniodd adroddiad terfynol y CHRE â phedair thema allweddol, sef: diben rheoleiddiol, swyddogaethau rheoleiddio, pobl a diwylliant a rheoli gweithredol. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at broblemau ar bob lefel ac ym mhob system gan gynnwys gwendidau ym meysydd llywodraethu, arweinyddiaeth a diwylliant, prosesau gwneud penderfyniadau, systemau busnes a stiwardiaeth ariannol.

Canmolodd y CHRE y cydweithrediad llawn a gafodd a'n dull agored ac ymatebol o weithredu, gan gydnabod bod cryn dipyn o weithgarwch eisoes yn mynd rhagddo a bod arwyddion calonogol bod y sylfeini ar gyfer newid yn dechrau cael eu gosod. Daeth y CHRE i'r casgliad, o ystyried y brwdfrydedd mawr sydd ymhlith ein staff i ddiogelu'r cyhoedd a'n parodrwydd i ddysgu, fod lle i drawsnewid y sefydliad yn rheoleiddiwr modern sy'n addas at y diben.

Mewn ymateb, rydym wedi pennu cyfeiriad strategol clir y bwriedir iddo droi'r CNB yn rheoleiddiwr effeithlon ac effeithiol, sy'n diogelu'r cyhoedd ac ennyn hyder y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol.

Cyflawnir hyn drwy'r rhaglen o newidiadau mawr rydym wedi'i rhoi ar waith i fynd i'r afael ag argymhellion y CHRE. Rydym yn rhagweld, fel y cydnabuwyd gan y CHRE, y bydd yn cymryd tua dwy flynedd i gyflawni canlyniadau y gellir eu dangos.

## Cwmpas y cyfrifoldeb

Y CNB sy'n gyfrifol am sicrhau y cynhelir busnes yn unol â'r gyfraith a safonau priodol ac y diogelir yr adnoddau a'r asedau y mae'n gyfrifol amdanynt, y rhoddir cyfrif priodol amdanynt ac y'u defnyddir mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau hyn ac yn nodi ein cynlluniau isod.

Yn dilyn ymddiswyddiad y Cadeirydd blaenorol (31 Mawrth 2012) a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd blaenorol (11 Ionawr 2012), gwnaed trefniadau dros dro i'r rolau hyn gael eu cyflawni tra'n aros i recriwtio unigolion i'r swyddi parhaol. Ar ôl penodi Is-gadeirydd a Swyddog Cyfrifyddu, rydym wedi cymryd cyfrifoldeb personol am sicrhau bod camau yn cael eu cymryd i roi systemau llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg effeithiol ar waith a bod y CNB yn cynnal safonau uniondeb uchel wrth reoli ei arian.

[44] Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog i'r Senedd, yr Adran Iechyd, 26 Ionawr 2012
[45] Adolygiad Strategol o'r CNB, Adroddiad Interim, y CHRE, 10 Ebrill 2012
[46] Adolygiad Strategol o'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Adroddiad Terfynol, y CHRE, 3 Gorffennaf 2012

## Diben y fframwaith llywodraethu

Mae adroddiad y CHRE yn nodi'n glir fod fframwaith llywodraethu wedi bod ar waith drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012, ond na chadwyd at y fframwaith hwn yn gyson ac na roddodd y sicrwydd angenrheidiol i'r Cyngor.

Fel mesur cychwynnol, cytunodd y Cyngor ar fframwaith llywodraethu wedi'i fireinio ar 29 Mawrth 2012, gan ystyried canfyddiadau'r CHRE a oedd yn dod i'r golwg. Mae ffrwd waith sylweddol o fewn y rhaglen newid yn canolbwyntio ar sicrhau bod llywodraethu wrth wraidd popeth a wnawn. Bwriedir i hyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus, yn rhoi cyfrif am ein perfformiad yn agored, yn gwella ein stiwardiaeth o adnoddau, yn meithrin ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd, ein rhanddeiliaid a'n staff ac yn bodloni pob gofyniad statudol ac elusennol, gan gynnwys sicrhau manteision cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i ddiwygio'r fframwaith llywodraethu er mwyn cynnwys systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg mwy effeithiol. Rydym yn cydnabod na all unrhyw drefniadau o'r fath ddileu'r risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion yn gyfan gwbl ac felly ni all roi sicrwydd llwyr o effeithiolrwydd, dim ond rhoi sicrwydd rhesymol. Fodd bynnag, ein nod yw cael system rheolaeth fewnol sy'n sicrhau, fel rhan o broses barhaus, ein bod yn nodi ac yn blaenoriaethu risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y CNB, gwerthuso pa mor debygol ydyw y bydd y risgiau hynny yn codi a'u heffaith a rhoi mesurau trin risg ar waith i'w lliniaru mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus.

## Y fframwaith llywodraethu a chydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r CNB yn gorff corfforaethol a sefydlwyd gan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ("y Gorchymyn")[47] ac yn elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr gan y Comisiwn Elusennau (rhif 1091434) ac yn yr Alban gan Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif SC038362).

## Y Cyngor

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r CNB ac mae aelodau'r Cyngor yn gydatebol. Aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Fel ymddiriedolwyr, mae aelodau'r Cyngor yn bennaf cyfrifol am gyfarwyddo materion y CNB, gan sicrhau ei fod yn solfent a'i fod yn cael ei redeg yn dda ac yn darparu buddiannau i'r cyhoedd. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, i'r graddau y mae'n gymwys, o gofio statws y CNB fel corff statudol ac elusen annibynnol.[48]

Ar hyn o bryd mae'r Gorchymyn yn darparu y gall y Cyngor gynnwys hyd at 14 o aelodau: saith aelod cofrestredig a saith aelod lleyg. Aelodau lleyg yw'r rhai na fuont erioed yn nyrs nac yn fydwraig gofrestredig. Penodir pob aelod gan y Cyfrin Gyngor.

---

[47] OS 2002/253 (fel y'i diwygiwyd)
[48] Corporate governance in central government departments: Code of good practice 2011, Trysorlys EM 2011

Bu'r canlynol yn gwasanaethu fel aelodau (ymddiriedolwyr) y Cyngor yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y datganiad hwn:[49]

| | |
|---|---|
| Yr Athro Tony Hazell | (Cadeirydd rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012. Ymddiswyddodd 31 Mawrth 2012) |
| Alison Aitken | |
| Dr Kuldip Bharj OBE | |
| Yr Athro Judith Ellis MBE | (Is-gadeirydd rhwng 1 Ebrill 2012 ac aelod o'r cyngor ers 1 Ionawr 2009) |
| Joyce Fletcher | (ymddiswyddodd 31 Mai 2012) |
| Sue Hooton OBE | (penodwyd 12 Mehefin 2012) |
| Lorna Jacobs | |
| Gayle Nelson | (ymddiswyddodd 29 Chwefror 2012) |
| Grahame Owen | |
| Nicki Patterson | (penodwyd 12 Mehefin 2012) |
| David Pyle | |
| Carole Rees-Williams | |
| Yr Athro Mary Renfrew | (rhoddodd y gorau i'w swydd 31 Rhagfyr 2011) |
| Ruth Sawtell | |
| Beatrice Teuten | |
| Yr Athro Jane Tunstill | |

Ymgynghorodd yr Adran Iechyd yn gynharach eleni ar gynigion i leihau'r Cyngor i wyth aelod.[50] Rhagwelir, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, y caiff unrhyw newidiadau i gyfansoddiad y Cyngor eu rhoi ar waith yn 2013.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn ffurfiol ac yn gyhoeddus, 10 gwaith y flwyddyn. Mae hefyd yn cynnal sesiwn deuddydd preifat, anffurfiol lle mae'n edrych ar ei effeithiolrwydd fel Cyngor yn ogystal ag ystyried yr amgylchedd allanol sy'n newid lle mae gweithgarwch rheoleiddio gofal iechyd yn digwydd a sut y bydd hyn yn effeithio ar ei strategaeth yn y dyfodol.

Fel y nodwyd, mae gwaith yn mynd rhagddo i atgyfnerthu'r fframwaith llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys ystyried ymhellach i ba raddau y gallwn gymhwyso'r Cod Llywodraethu Corfforaethol a chanllawiau cysylltiedig, gan gynnwys edrych ar ein perfformiad yn erbyn y rhestr wirio cydymffurfiaeth, i'r graddau y mae'n berthnasol.[51] Rydym yn:

- Adolygu ac yn egluro'r rheolau sefydlog sy'n rheoli'r modd y cynhelir busnes y Cyngor a busnes pwyllgorau.
- Adolygu'r cynllun dirprwyo sy'n nodi cyfrifoldebau'r Cyngor, pwyllgorau, y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r Tîm gweithredol (Grŵp y Cyfarwyddwyr) a'n nod yw creu cysylltiad cliriach rhwng hyn â gofynion statudol.

---

[49] www.nmc-uk.org/About-us/The-Council/NMC-Council-members
[50] Gorchymyn y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Cyfansoddiad) (Diwygio): Papur ymgynghori. Yr Adran Iechyd, Mai 2012.
[51] Corporate governance in central government departments: Code of good practice 2011: Compliance Checklist, NAO Mawrth 2012.

- Adolygu ein rheoliadau ariannol. Bwriadwn ddiffinio'n gliriach weithdrefnau ar gyfer awdurdodi a rheoli eitemau refeniw a gwariant cyfalaf, yn ogystal â rhoi systemau mwy effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth, gan gynnwys y broses adolygu digwyddiadau difrifol rydym yn ei datblygu fel y disgrifir isod.

- Rydym yn adolygu ac yn atgyfnerthu ein polisi rheoli risg, fel y disgrifir yn ddiweddarach yn y datganiad.

Rydym eisoes wedi rhoi'r canlynol ar waith:

- Cod ymddygiad i'r Cyngor ac aelodau partner, sy'n seiliedig ar saith egwyddor bywyd cyhoeddus (Egwyddorion Nolan), gan gynnwys cofrestr gyhoeddus o fuddiannau'r Cyngor ac aelodau partner a pholisïau ar ddatgan unrhyw roddion neu letygarwch.

- Polisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt sy'n ymwneud â'r canlynol:

  - Cwynion yn erbyn y Cyngor neu aelodau partner.

  - Datgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban). Cytunodd y Cyngor ar bolisi diwygiedig ym mis Mehefin 2012.

  - Cwynion yn erbyn y ffordd y mae'r CNB yn cyflawni ei swyddogaethau.

  - Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd.

Mae cyfarfodydd y Cyngor a phwyllgorau yn agored ac mae agendâu, cofnodion a phapurau ar gael i'r cyhoedd oni thybir eu bod yn gyfrinachol o dan feini prawf llym a ddiffinnir mewn rheolau sefydlog.

Mae'r Cyngor yn gweithredu ar y cyd wrth wneud penderfyniadau. Nid yw aelodau'r Cyngor yn arfer unrhyw awdurdod unigol ac eithrio pan fo cyfrifoldebau wedi'u dirprwyo'n benodol i aelodau unigol. Os nad yw'n ymarferol ymgynghori â'r aelodau, mae'r Cadeirydd yn arfer rhywfaint o ymreolaeth wrth wneud penderfyniadau ar fyrder, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd, ar yr amod yr hysbysir yr aelodau cyn gynted ag sy'n ymarferol.

**Rôl y Cyngor**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am y canlynol:

- Sicrhau bod y CNB yn cyflawni ei amcanion statudol, ei swyddogaethau cyffredinol a'i ddyletswyddau yn effeithiol ac yn arfer y pwerau cyfreithiol a roddwyd iddo o dan Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001, Deddf Elusennau 2011 a deddfwriaeth berthnasol arall yn briodol.

- Pennu cyfeiriad strategol cyffredinol y CNB, ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion.

- Sicrhau bod y CNB yn darparu manteision cyhoeddus wrth hyrwyddo ei ddibenion elusennol ac yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw priodol i'r canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau fel sy'n ofynnol o dan adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011.

- Cymeradwyo'r cynllun a chyllideb gorfforaethol bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael i gyflawni amcanion statudol y CNB.

- Monitro perfformiad y Prif Weithredwr a Chofrestrydd drwy'r Cadeirydd a'i ddwyn i gyfrif am arfer pwerau a ddirprwywyd gan y Cyngor yn y cynllun dirprwyo a chyflawni'r cynllun a'r gyllideb gorfforaethol.

- Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Senedd, y Comisiwn Elusennau a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban ar berfformiad y CNB.

- Hyrwyddo a diogelu pwerau statudol, gwerthoedd, uniondeb, delwedd ac enw da'r CNB.

- Sicrhau gwaith llywodraethu o safon uchel sy'n ennyn hyder pob rhanddeiliad.

## Pwyllgorau

Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu Pwyllgor Bydwreigiaeth. Gall y Cyngor sefydlu pwyllgorau neu dasgluoedd eraill at ddibenion penodol. Fodd bynnag, dylai fod gan y fath grwpiau gylch gorchwyl clir ac mae'n rhaid nodi unrhyw awdurdod a ddirprwyir iddynt yn y Cynllun Dirprwyo cyn y gall y grŵp wneud unrhyw benderfyniadau.

Yn ogystal â'r Pwyllgor Bydwreigiaeth, roedd tri Phwyllgor arall ar waith yn ystod 2011-12, sef: Y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Bwrdd Penodiadau.

Mae'r pwyllgorau, ac eithrio'r Bwrdd Penodiadau (gweler isod), yn cynnwys aelodau'r Cyngor ac aelodau partner (nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor) a recriwtiwyd drwy broses agored yn erbyn cymwyseddau sy'n benodol i gylch gwaith y pwyllgor hwnnw.

### Y Pwyllgor Bydwreigiaeth

Cylch gwaith statudol y Pwyllgor Bydwreigiaeth yw rhoi cyngor i'r Cyngor ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â bydwreigiaeth. Mae'r pwyllgor, a gadeirir gan Dr Kuldip Bharj, yn cynnwys dau aelod o'r Cyngor ac wyth aelod partner. Mae pum bydwraig a phum aelod lleyg ar y pwyllgor.

### Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am sicrhau bod gan y Cyngor reolaethau mewnol effeithiol ar waith a bod systemau priodol ar gyfer rheoli risg. Mae'r pwyllgor yn cynnwys tri aelod o'r Cyngor a thri aelod partner. Fe'i cadeiriwyd gan Julia Drown (aelod partner) tan 30 Ebrill 2012 a chan Ruth Sawtell (aelod o'r Cyngor) o 1 Mai 2012.

### Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Cylch gwaith y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw rhoi cyngor i Gadeirydd y Cyngor ar benodi'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'i gydnabyddiaeth a rhoi cyngor i'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd ar benodi aelodau'r Tîm Gweithredol (Cyfarwyddwyr) a'u cydnabyddiaeth gan sicrhau tegwch a phriodoldeb ac y dilynir arfer da ym maes llywodraethu corfforaethol. Penodwyd John Halliday (nad yw'n aelod o'r Cyngor) yn Gadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar 1 Ionawr 2012. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri aelod o'r Cyngor yn ogystal â'r Cadeirydd.

**Bwrdd Penodiadau**

Mae'r Bwrdd Penodiadau yn gyfrifol am sicrhau bod y prosesau ar gyfer penodi, hyfforddi a rheoli perfformiad aelodau partner yn annibynnol ac yn dryloyw a'u bod yn dilyn arfer gorau. Mae aelodau partner yn cynnwys aelodau pwyllgorau nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor, aelodau paneli addasrwydd i ymarfer ac adolygwyr Awdurdodau Goruchwylio Lleol. Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn annibynnol ar y Cyngor, nid yw'r un o'i bum aelod gan gynnwys y cadeirydd yn aelod o'r Cyngor. Yr Athro Nigel Ratcliffe yw Cadeirydd y Bwrdd Penodiadau.

**Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor a phwyllgorau**

Cofnodir isod bresenoldeb aelodau ac aelodau partner yng nghyfarfodydd y Cyngor a phwyllgorau a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012.

| **Aelod** | **Cyngor** | **Yn bersonol** | **Drwy delegynadledda** |
|---|---|---|---|
| Alison Aitken | 10 | 9 | 0 |
| Dr Kuldip Bharj OBE | 10 | 8 | 0 |
| Yr Athro Judith Ellis MBE | 10 | 8 | 0 |
| Joyce Fletcher | 10 | 7 | 1 |
| Yr Athro Tony Hazell[52] | 10 | 10 | 0 |
| Lorna Jacobs | 10 | 9 | 0 |
| Gayle Nelson[53] | 9 | 5 | 1 |
| Graham Owen | 10 | 9 | 1 |
| David Pyle | 10 | 9 | 0 |
| Carole Rees-Williams | 10 | 8 | 1 |
| Yr Athro Mary Renfrew[54] | 6 | 4 | 1 |
| Ruth Sawtell | 10 | 9 | 0 |
| Beatrice Teuten | 10 | 9 | 0 |
| Yr Athro Jane Tunstill | 10 | 10 | 0 |
| | **Pwyllgor Archwilio** | | |
| Yr Athro Judith Ellis MBE | 3 | 3 | Dd/G |
| Grahame Owen | 3 | 3 | Dd/G |
| Ruth Sawtell | 3 | 3 | Dd/G |
| Julia Drown (aelod partner) | 3 | 3 | Dd/G |
| Kim Lavely (aelod partner) | 3 | 3 | Dd/G |
| Louise Scull[55] (aelod partner) | 1 | 1 | Dd/G |

[52] Ymddiswyddodd 31 Mawrth 2012
[53] Ymddiswyddodd 29 Chwefror 2012
[54] Rhoddodd y gorau i'w swydd 31 Rhagfyr 2011
[55] Penodwyd 1 Rhagfyr 2011, felly roedd yn gymwys i fynd i un cyfarfod yn unig yn 2011-2012.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Y Pwyllgor Bydwreigiaeth** | | |
| Dr Kuldip Bharj OBE | 2 | 2 | Dd/G |
| Beatrice Teuten | 2 | 2 | Dd/G |
| Ann Holmes (aelod partner) | 2 | 2 | Dd/G |
| Dorothy Patterson (aelod partner) | 2 | 2 | Dd/G |
| Francis McCartney (aelod partner) | 2 | 0 | Dd/G |
| Gillian Boden (aelod partner) | 2 | 1 | Dd/G |
| Kirsty Darwent (aelod partner) | 2 | 2 | Dd/G |
| Marie McDonald (aelod partner) | 2 | 1 | Dd/G |
| Rose McCarthy (aelod partner) | 2 | 2 | Dd/G |
| Ruth Carter (aelod partner) | 2 | 2 | Dd/G |
| | **Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth** | | |
| Gayle Nelson | 1 | 1 | Dd/G |
| David Pyle | 1 | 1 | Dd/G |
| Yr Athro Jane Tunstill | 1 | 1 | Dd/G |

## Rôl y Tîm Gweithredol

Y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yw prif swyddog y CNB ac mae ganddo gyfrifoldeb gweithredol am reolaeth weithredol y CNB. Mae hyn yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer materion ariannol, ymddygiad a disgyblaeth. Cefnogir y Prif Weithredwr a Chofrestrydd gan Grŵp y Cyfarwyddwyr. Disgwylir i'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr hyrwyddo, drwy roi arweiniad ac esiampl, y gwerthoedd sydd wedi'u hymgorffori yn egwyddorion Nolan gan gynnwys datgan buddiannau ac unrhyw roddion neu letygarwch a gynigir.

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am sicrhau bod gan y Cadeirydd a'r Cyngor wybodaeth amserol, cywir a chlir i gyflawni eu cyfrifoldebau.

Mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn gyfrifol am arwain Grŵp y Cyfarwyddwyr a'r staff o ran y canlynol:

- Cyflawni amcanion statudol, swyddogaethau cyffredinol a dyletswyddau'r CNB ac arfer ei bwerau cyfreithiol.

- Datblygu cynlluniau, rhaglenni a pholisïau i'r Cyngor eu cymeradwyo.
- Cyflawni strategaethau a chynlluniau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol.
- Darparu gwasanaethau'r CNB yn unol â thargedau a mesurau perfformiad y cytunwyd arnynt gyda'r Cyngor.

Fel Swyddog Cyfrifyddu'r CNB, mae'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn bersonol atebol a chyfrifol am faterion sy'n ymwneud â phriodoldeb a rheoleidd-dra ariannol, cadw cyfrif priodol am faterion ariannol a defnyddio adnoddau yn effeithiol, gan gynnwys defnydd y CNB o arian unigolion cofrestredig ac am y canlynol:

- Gweinyddu mewn modd doeth a darbodus.
- Osgoi gwastraff ac afradlondeb.
- Defnydd effeithlon ac effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael.
- Gwaith trefnu, staffio a rheoli cyffredinol

## Perfformiad y Cyngor a'i asesiad o'i effeithiolrwydd ei hun

Canfu Adolygiad Strategol y CHRE o'r CNB, ymhlith pethau eraill, fod dryswch ynghylch diben rheoleiddiol y CNB, diffyg cyfeiriad strategol clir a chyson, gwendidau o ran arweinyddiaeth a diwylliant mewnol, prosesau gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth reoli wael a phrosesau cynllunio busnes a rheolaeth ariannol annigonol. Nododd hefyd nad oedd y CNB wedi cydymffurfio â'r fframwaith llywodraethu ac nad oedd y Cyngor na'r tîm rheoli gweithredol wedi bod yn ddigon tryloyw ac atebol ac nad oedd unrhyw fforwm gwneud penderfyniadau effeithiol ar lefel weithredol.

Yn ystod 2011-2012, roedd y Cyngor ei hun wedi dod yn ymwybodol o'r problemau hyn. Nid oedd yn fodlon ei fod bob amser yn cael y wybodaeth lawn sydd ei hangen i wneud penderfyniadau cadarn na bod y wybodaeth a'r data o ansawdd digonol i'w alluogi i graffu ar weithgareddau'r sefydliad a'u herio'n effeithiol. Roedd hefyd wedi dod yn amlwg, er bod trefniadau llywodraethu a pholisïau cysylltiedig priodol ar waith, nad oedd y rhain yn cael eu dilyn yn gyson ac, am nad oedd fforwm gwneud penderfyniadau effeithiol ar lefel weithredol, fod y CNB wedi dechrau ar waith ar sail prosesau gwneud penderfyniadau nad oeddynt yn ddigon eglur na chadarn a oedd yn ymrwymo'r sefydliad i gamau gweithredu penodol.

Rydym wedi derbyn canfyddiadau adolygiad strategol y CHRE yn llawn ac rydym eisoes wedi dechrau gweithredu ei argymhellion. Rydym yn cydnabod mai cynllun hirdymor yw hwn ac y bydd yn cymryd dwy neu dair blynedd i ni ei roi ar waith yn llawn.

## Prif bwyntiau adroddiadau'r Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar ôl pob cyfarfod. Yn ystod 2011-2012, ymhlith yr eitemau allweddol yr ymdriniwyd â hwy gan y Pwyllgor ac y cyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Cyngor roedd y canlynol:

- Mabwysiadu adroddiad blynyddol a chyfrifon 2010-2011.
- Polisi Gwrth-dwyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd y CNB.

- Diwygio awydd am risg y CNB.
- Diwygio polisi rheoli digwyddiadau'r CNB.
- Diwygio polisi rheoli risg y CNB, gan gynnwys dull diwygiedig o gofnodi a rheoli risg a rhoi gwybod amdani.
- Lefelau dirprwyo ariannol.
- Y risg na fydd gan y Cyngor aelod sy'n gymwys o safbwynt ariannol. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid penodi aelod ag arbenigedd ariannol cyn gynted â phosibl.
- Polisi cronfeydd wrth gefn y CNB: argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Cyngor gadw ei bolisi cronfeydd wrth gefn, ond mae'n cydnabod ei bod yn bosibl y bydd angen defnyddio cronfeydd wrth gefn a fyddai dod â'r balans o dan lefel y polisi er mwyn ymateb i bwysau busnes penodol. Yn y fath achos byddai angen i'r Cyngor ddangos sut roedd yn bwriadu adfer lefel y cronfeydd wrth gefn yn unol â'r polisi.
- Camau i fynd i'r afael â materion sy'n deillio o archwiliad y CHRE o'r gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer a gynhaliwyd yn 2011.
- Diwygiadau i bolisi Datgelu er Budd y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban) y CNB, er mwyn ymgorffori mesurau diogelwch ychwanegol.
- Diwygiadau i ganllawiau'r CNB ar gyhoeddi papurau, cyfrinachedd a gadael i'r cyhoedd a'r wasg fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor a'r Cyngor.
- Cynnydd yn erbyn y rhaglen o waith archwilio mewnol ar gyfer 2011-2012 a chynigion ar gyfer y rhaglen waith yn 2012-2013.

## Asesu risg, proffil risg y CNB a'r modd y'i rheolir

### Fframwaith rheoli risg a rheolaeth fewnol ac asesu effeithiolrwydd

Fel y Swyddog Cyfrifyddu a Chadeirydd y Cyngor, rydym yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol y CNB yn barhaus. Cawn ein cynghori a'n cefnogi gan y Pwyllgor Archwilio, Grŵp y Cyfarwyddwyr (y Bwrdd Arweinyddiaeth Gorfforaethol cyn hynny), gwaith yr adran Lywodraethu ac archwilwyr mewnol, Parkhill.

Er bod prosesau rheoli risg ar waith, daeth y CHRE i'r casgliad nad oedd y rhain yn cael eu defnyddio'n gyson nac yn effeithiol, nad oeddynt wedi atal perfformiad gwael na datgelu achosion o beidio â chydymffurfio â gweithdrefnau gweithredol. Roedd y CHRE hefyd o'r farn nad oedd y budd mwyaf posibl wedi'i sicrhau o'r swyddogaeth archwilio mewnol a oedd wedi'i gosod ar gontract allanol oherwydd gwaith gwael a wnaed i bennu cwmpas prosiectau archwilio mewnol a bod gwaith rheoli prosiectau wedi bod yn wan a'i gyflawni'n anghyson.

Rydym bellach yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r gwendidau hyn a gwella'r modd rydym yn nodi, yn gwerthuso ac yn rheoli risg.

Ymhlith y camau a gymerwyd eisoes mae'r canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi mynd ati i oruchwylio risg ac yn craffu arni'n fwy trylwyr. Cymeradwyodd y Cyngor newidiadau i'r ffordd y cyflwynir y gofrestr risg er mwyn sicrhau ei bod yn fwy tryloyw a hygyrch. Ers mis Mai 2012, mae'r gofrestr risg gorfforaethol wedi cael ei thrafod yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Cyngor ac erbyn hyn dyma'r eitem barhaol gyntaf ar yr agenda.

- Mae'r Pwyllgor Archwilio bellach yn cael ei gadeirio gan aelod o'r Cyngor. Gwahoddir aelodau partner y Pwyllgor Archwilio i ddod i gyfarfodydd y Cyngor, fel sylwedyddion, ar sail cylchdro er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r materion strategol sy'n wynebu'r sefydliad. Yn dilyn pob cyfarfod, mae'r Pwyllgor Archwilio yn llunio adroddiad i'r Cyngor yn ogystal ag adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau.

- Ym mis Hydref 2011, adolygodd y Cyngor awydd am risg y CNB a'i ddiwygio, yn seiliedig ar argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Archwilio. Mae'r CNB yn amharod i fentro mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau ac mae ganddo agwedd agored ym mhob maes arall.

- Cyflwynwyd proses ar gyfer cynnal adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol, i ddechrau yn y gyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer ac wedyn ym mhob rhan o'r sefydliad er mwyn sicrhau y rhoddir gwybod am achosion difrifol o fynd yn groes i bolisïau neu weithdrefnau neu beidio â chydymffurfio â'r fframwaith llywodraethu, y caiff cynlluniau gweithredu eu rhoi ar waith ac y caiff gwersi eu dysgu i atal y fath achosion rhag digwydd eto yn y dyfodol. Erbyn hyn mae rhagor o waith yn cael ei wneud i sicrhau y caiff yr adolygiad o ddigwyddiadau difrifol a pholisïau cofnodi digwyddiadau eu dwyn at ei gilydd er mwyn creu un cyfanwaith cydlynol, a ddeellir yn eang ac a ddefnyddir yn gyson.

- Cyflwynwyd protocol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio, er mwyn egluro priod gyfrifoldebau'r Pwyllgor, cyfarwyddwyr ac archwiliad mewnol ac y pennir cwmpas adolygiadau archwilio mewnol yn fwy trylwyr gydag amserlenni clir ar gyfer ymatebion a chamau gweithredu gan reolwyr. Rydym yn rhoi system ar waith i sicrhau y gwneir gwaith dilynol ar argymhellion yr archwiliad mewnol ac y cadarnheir eu bod wedi'u gweithredu. Bwriedir gwneud rhagor o waith i sicrhau y gwneir defnydd mwy effeithiol o'r archwiliad mewnol a bod ei adolygiadau yn ychwanegu gwerth.

- Cynhaliwyd adolygiad manylach o weithgarwch rheoli risg a datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer cyflawni er mwyn ymgorffori gweithgarwch rheoli risg yn y sefydliad, gan gynnwys hyfforddiant i feithrin dealltwriaeth a gwella'r modd y cyflawnir gweithgarwch rheoli risg ar bob lefel. Rydym hefyd yn deall bod angen integreiddio gweithgarwch cynllunio busnes, rheoli risg a chofnodi perfformiad ac atgyfnerthu gweithgarwch rheoli prosiectau o fewn y sefydliad.

**Problemau sylweddol yn ymwneud â rheolaeth fewnol sy'n wynebu'r CNB**

Yn ystod 2011-2012, roedd y prif risgiau sylweddol a nodwyd gennym ac roeddem eisoes yn mynd i'r afael â hwy yn ymwneud â'r canlynol:

- Arweinyddiaeth y sefydliad yn dilyn ymadawiad y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a oedd yn golygu bod angen penodi Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro a gwneud penodiadau dros dro ar lefel cyfarwyddwr

- Methiant i wella swyddogaethau Addasrwydd i Ymarfer yn ddigon cyflym er mwyn atal cyfrifoldebau statudol rhag cael eu cyflawni mewn modd annigonol gan gynnwys ymdrin ag achosion yn brydlon, gwasanaeth cwsmeriaid, ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau a diogelwch data.

- Pwysau ariannol a lefel incwm nad yw'n gynaliadwy â chyflawni gweithgareddau rheoleiddio hanfodol.

- Digonolrwydd systemau TG a systemau wrth gefn, gan gynnwys risgiau sy'n ymwneud â methiant system craidd ac adfer ar ôl trychineb.

- Methiant i ymgorffori gweithgarwch rheoli risg yn y CNB.

Mae'r camau roeddem eisoes wedi bod yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau uchod bellach wedi'u cynnwys yn y camau rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael ag argymhellion penodol y CHRE, fel y disgrifir isod.

**Sut rydym yn mynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion y CHRE**

Fel y cydnabu'r CHRE bu cryn dipyn o weithgarwch ers mis Ionawr 2012 i drawsnewid y sefydliad. Mae'r rhaglen newid fawr roeddem wedi'i rhoi ar waith yn cael ei datblygu ymhellach er mwyn cwmpasu'r holl newidiadau a phrosesau gwella fel yr argymhellwyd gan y CHRE, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o'r Adroddiad ar wahân ar yr Adolygiad o Berfformiad ar gyfer 2011-2012 a gynhaliwyd gan y CHRE.[56]

- **Sicrhau eglurder o ran ein diben a ffocws cyson ar ddiben rheoleiddiol y CNB**
    - Ym mis Ionawr 2012, adolygwyd pob gweithgaredd, rhaglen a phrosiect a oedd yn mynd rhagddo er mwyn sicrhau mai dim ond y rhai sy'n hanfodol i ddiogelu'r cyhoedd a gaiff eu datblygu.  Felly, wrth ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2012-2015, roeddem yn gallu canolbwyntio ein hymdrechion a'n hadnoddau ar sicrhau y caiff ein pedair swyddogaeth statudol graidd eu cyflawni. Caiff hyn ei atgyfnerthu ymhellach drwy ddull mwy systematig a thrylwyr o ddatblygu'r cynlluniau corfforaethol a busnes ar gyfer 2013-2016.

    - Rydym wrthi'n ailstrwythuro'r sefydliad er mwyn ailganolbwyntio ein gwaith a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Canlyniad sefydlu'r strwythur newydd fydd lleihau nifer y cyfarwyddiaethau o saith i bedair y bwriedir iddynt gyd-fynd yn gliriach â swyddogaethau statudol craidd y CNB, fel y gall staff a rhanddeiliaid weld a chymharu'n gliriach yr hyn rydym yma i'w gyflawni a'r modd rydym yn ei gyflawni. Mae systemau cyfathrebu mewnol yn cael eu hatgyfnerthu er mwyn sicrhau bod staff yn glir ynghylch diben a rôl y CNB.

- **Ymgysylltu'n fwy effeithiol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd**
    - Rydym yn ailfywiogi ein cydberthnasau â rhanddeiliaid allweddol er mwyn cyfleu ein cynlluniau ar gyfer gwella a datblygu deialog adeiladol sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth glir o briod rolau a chyfrifoldebau.  Rydym wedi ymrwymo i ddilyn arfer da mewn ymgynghoriadau cyhoeddus ac rydym yn datblygu cynlluniau i sicrhau bod hyn yn digwydd yn y dyfodol a bod ein hymgynghoriadau yn adlewyrchu ymdrech wirioneddol i geisio barn y rhai sy'n cyfrannu a'i hystyried.

[56] Adroddiad ar yr Adolygiad o Berfformiad 2011-2012, Adroddiad Blynyddol Cyfrol II, y CHRE, 28 Mehefin 2012

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r rhai rydym yma i'w diogelu, sef: cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd. Rydym yn cydnabod yr her sy'n gysylltiedig â hyn ac yn datblygu strategaeth i fynd i'r afael â hyn mewn modd cydlynol.

- **Atgyfnerthu arweinyddiaeth a diwylliant y sefydliad**

    - Penodwyd cadeirydd parhaol a fydd yn dechrau yn y swydd ar 10 Medi 2012. Mae'r broses o recriwtio i lenwi swydd y Prif Weithredwr a Chofrestrydd yn mynd rhagddi, yn ogystal â phrosesau ar gyfer gwneud penodiadau i'r tîm gweithredol o fewn y strwythur newydd. Mae nodi'r cymwyseddau ymddygiadol dymunol y disgwylir i'r tîm arwain eu dangos wedi bod yn allweddol i'r penodiadau hyn. Elfen hanfodol o'r rhaglen newid yw'r penderfyniad i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio er mwyn hyrwyddo'r newidiadau diwylliannol sydd eu hangen gan gynnwys dull mwy agored ac ymgynghorol o weithredu, rhoi mwy o rym i staff a dull gweithredu sy'n canolbwyntio'n fwy ar wasanaeth cwsmeriaid. Caiff hyn ei atgyfnerthu a'i gefnogi gan strategaeth Adnoddau Dynol newydd sydd wrthi'n cael ei datblygu.

- **Gwella trefniadau llywodraethu a sicrhau cydymffurfiaeth gyson â'r fframwaith llywodraethu**.

    - Mae sicrhau bod llywodraethu cryf wrth wraidd gwaith y CNB yn elfen bwysig o'r rhaglen newid. Fel y nodwyd, cytunodd y Cyngor ar fframwaith llywodraethu diwygiedig ar 29 Mawrth 2012 ac mae gwaith yn mynd rhagddo i atgyfnerthu'r fframwaith llywodraethu ymhellach gan gynnwys rhoi systemau effeithiol ar waith ar gyfer monitro achosion o beidio â chydymffurfio â'r fframwaith a rhoi gwybod amdanynt.

    - Fel rhan o'r broses gynllunio gorfforaethol ar gyfer 2013-2016, bydd y Cyngor yn pennu nodau ac amcanion clir ac yn mabwysiadu dull llawer mwy cadarn o fonitro perfformiad a dwyn y tîm gweithredol i gyfrif am eu cyflawni.

    - Mae rhagor o waith yn mynd rhagddo i sicrhau y caiff defnydd mwy effeithiol ei wneud o waith archwilio mewnol, gan gynnwys drwy nodi cwmpas adolygiadau archwilio mewnol yn gliriach, sicrhau bod rheolwyr yn ymateb yn brydlon ac y caiff argymhellion eu gweithredu.

    - Mynd i'r afael â gwendidau mewn systemau gwneud penderfyniadau a systemau busnes. Mae fforwm sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar lefel weithredol, sef Grŵp y Cyfarwyddwyr, bellach wedi'i sefydlu. Mae camau yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau eu cofnodi a'u cyfleu'n llawn, gan gynnwys ar ba sail y cytunwyd ar adnoddau ac y'u dyrannwyd. Mae gwaith datblygu yn mynd rhagddo i wella gweithgarwch rheoli prosiectau ac ymgorffori gweithdrefnau awdurdodi a rheoli clir.

    - Rydym yn adolygu strwythur, cylchoedd gwaith a llinellau adrodd y Cyngor a phwyllgorau er mwyn sicrhau prosesau goruchwylio a chraffu mwy effeithiol. Mae argymhelliad dros dro'r CHRE y dylai'r Pwyllgor Archwilio gael ei gadeirio gan aelod o'r Cyngor eisoes wedi'i weithredu.

- **Gwella cymhwysedd a rheolaeth ariannol**

    - Mae Grŵp Adolygu Cyllid o fewn y Cyngor wrthi'n datblygu strategaeth ariannol hirdymor er mwyn mynd i'r afael â'r heriau ariannol sy'n wynebu'r CNB, gan gynnwys yr angen i fuddsoddi mewn systemau TG a'r cynnydd parhaus a ddisgwylir yn y llwyth gwaith addasrwydd i ymarfer. Fel rhan o'r broses hon, daethom i'r casgliad nad yw ein lefel bresennol o incwm yn ddigonol i gynnal lefel y gweithgarwch sydd ei angen i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y llwyth gwaith addasrwydd i ymarfer. Rydym wedi ymgynghori â'r cyhoedd ar gynigion i gynyddu ffioedd cofrestru er mwyn sicrhau bod ein sail ariannol yn adlewyrchu'n gywir yr adnoddau sydd eu hangen i ddiogelu'r cyhoedd.

    - Caiff camau eu cymryd cyn gynted â phosibl i recriwtio aelod o'r Cyngor sydd â'r cymwysterau a'r profiad ariannol priodol. Fel mesur dros dro, mae'r Cyngor wedi cytuno y bydd aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio sydd ag arbenigedd ariannol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol gyda rôl gynghori (heb hawliau pleidleisio).

    - Rydym yn gweithio i atgyfnerthu ein prosesau rheolaeth ariannol ac yn rhoi proffil uwch i wybodaeth ariannol o fewn y sefydliad. Datblygwyd cyllideb ddiwygiedig, a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2001, yn seiliedig ar waith pellach a wnaed ar weithgarwch addasrwydd i ymarfer. Mae'r Grŵp Adolygu Cyllid yn datblygu gofynion clir a phenodol o ran gwybodaeth reoli ariannol fanwl gywir a fydd yn sail i waith monitro mwy trylwyr gan y Cyngor a gyflawnir yn fisol. Rydym yn atgyfnerthu ein prosesau modelu ariannol ac yn cydnabod bod angen datblygu gofynion mwy trylwyr o ran llunio tybiaethau ariannol, prisio gweithgareddau a gynlluniwyd, herio cyllidebau a dwyn cyfarwyddwyr i gyfrif. Rydym yn bwriadu datblygu cynlluniau i gysylltu canlyniadau ariannol yn gliriach â phrosesau gwneud penderfyniadau ac arfer rheolaethau ariannol mwy effeithiol a byddwn yn datblygu ein systemau er mwyn cyflawni hyn.

    - Mae bwrdd effeithlonrwydd corfforaethol bellach ar waith, sy'n atebol i Grŵp Adolygu Cyllid y Cyngor. Bwriedir iddo ddatblygu cynlluniau effeithlonrwydd realistig y gellir eu cyflawni, olrhain arbedion a monitro'r modd y cyflawnir targedau effeithlonrwydd.

- **Sicrhau bod gennym y seilwaith TGCh cywir ar waith**

    - Mae strategaeth TGCh wrthi'n cael ei datblygu a bu'n destun adolygiad annibynnol gan ymgynghorwyr allanol. Fel yr argymhellwyd gan y CHRE, byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn deall galluoedd ein systemau cyfredol cyn gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi rhagor o arian mewn TGCh. Fodd bynnag, darparwyd ar gyfer gwelliannau hanfodol i seilwaith sydd eu hangen ar fyrder.

    - Rydym hefyd yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chywirdeb y gofrestr sy'n deillio o ddiffyg cysylltedd rhwng y system gofrestriadau (WISER) a system rheoli achosion addasrwydd i ymarfer ar wahân sydd wedi arwain at rai gwallau. Mae hyn yn flaenoriaeth uchel a chymerwyd camau i fynd i'r afael â'r materion uniongyrchol a sicrhau y caiff unrhyw wallau eu cywiro yn ddyddiol a'u hatal rhag codi eto yn y dyfodol drwy gyflwyno gweithdrefnau rheoli tynnach ar gyfer gwneud newidiadau i'r gofrestr sy'n deillio o benderfyniadau ynghylch addasrwydd i ymarfer. Bwriedir i hyn, ynghyd â chynlluniau i sicrhau ei bod yn

haws cael gafael ar wybodaeth am hanes addasrwydd i ymarfer unigolion cofrestredig drwy chwiliadau ar-lein, ein galluogi i gyrraedd Safonau Rheoleiddio Da perthnasol y CHRE. Fodd bynnag, bydd angen ystyried dileu'n llwyr y datgysylltiad rhwng y systemau TG cofrestru ac addasrwydd i ymarfer fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth TGCh dymor hwy.

- **Sicrhau bod prosesau gwneud penderfyniadau yn fwy eglur a chyson, gan gynnwys y wybodaeth reoli sy'n sail i benderfyniadau ac a ddefnyddir i fonitro perfformiad**

  - Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i wella'r wybodaeth am berfformiad a roddir i'r Cyngor a Grŵp y Cyfarwyddwyr. Ers mis Mai 2012, mae'r Cyngor wedi bod yn cael adroddiad cerdyn sgorio cytbwys misol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Rydym yn parhau i fireinio a datblygu hyn ar sail ailadroddol.

  - Mae gwaith i wella argaeledd gwybodaeth reoli a'r defnydd a wneir ohoni ar lefel tîm ac oddi tani hefyd yn mynd rhagddo.

  - Cynhaliwyd adolygiad allanol o wybodaeth reoli o fewn Addasrwydd i Ymarfer a dylai rhoi'r argymhellion ar waith wella ansawdd data a'r modd y'i cyflwynir.

- **Gwella perfformiad y swyddogaeth Addasrwydd i Ymarfer**

  - Fel y nodwyd yn y sylwadaeth yn adran pedwar o'r adroddiad blynyddol hwn a'n hadroddiad blynyddol ar addasrwydd i ymarfer a gyhoeddwyd ar wahân, mae'r cynnydd yn nifer yr achosion addasrwydd i ymarfer a atgyfeiriwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, na welwyd mo'i debyg o'r blaen, ynghyd â'r methiannau rheoli a ddisgrifiwyd gan y CHRE, wedi arwain at ôl-groniad sylweddol o achosion. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, rydym yn cydnabod yr her sylweddol sy'n ein hwynebu i gyflawni swyddogaethau addasrwydd i ymarfer sy'n cyrraedd Safonau Rheoleiddio Da'r CHRE a sicrhau'r lefel o ddiogelwch y mae'r cyhoedd a chleifion, yn gywir ddigon, yn ei disgwyl.

  - Mae cynllun gweithredu, y cytunwyd arno â'r Adran Iechyd a'r CHRE, ar waith i fynd i'r afael ag argymhellion o adroddiadau'r CHRE ar berfformiad y CNB a gyhoeddwyd yn 2011 a'i archwiliad o gam cyntaf ein gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar amseroldeb ymdrin ag achosion, gwasanaeth cwsmeriaid ac ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau. Caiff cynnydd yn erbyn y cynllun ei fonitro'n fisol drwy un o is-grwpiau'r Cyngor, sy'n cynnwys cynrychiolaeth allanol, a chan y Cyngor ei hun ym mhob cyfarfod.

  - Gan adeiladu ar hyn, fel yr argymhella'r CHRE, rydym yn datblygu ac yn integreiddio strategaeth gwella addasrwydd i ymarfer gynhwysfawr fel ffrwd waith allweddol o fewn y rhaglen rheoli newid. Mae hyn yn dwyn yr amrywiaeth helaeth o fentrau gwella sydd eisoes yn mynd rhagddynt ynghyd i greu cyfanwaith cydlynol, gan fynd i'r afael â meysydd cynllunio a goruchwylio busnes, sicrhau ansawdd, mesur perfformiad a gwybodaeth am berfformiad a rheolaeth weithredol. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi'n gliriach y canlyniadau a'r gwelliannau a ddisgwylir o'r holl weithgarwch sy'n mynd rhagddo, gan gynnwys arbedion effeithlonrwydd, ac olrhain cynnydd yn fwy trylwyr fel y gallwn fod yn sicr bod y buddsoddiad sylweddol sy'n cael ei wneud yn llwyddo i wella diogelwch y cyhoedd.

**Heriau sy'n deillio o ddatblygiadau allanol**

Gan ystyried y cyd-destun strategol ehangach, rydym yn cydnabod bod heriau ychwanegol y mae angen mynd i'r afael â hwy yn 2012-15 y cynnwys y canlynol: sicrhau bod gan y CNB yr adnoddau i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n deillio o adroddiad yr Ymchwiliad Cyhoeddus i Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford (Ymchwiliad Francis)[57] neu o adolygiad Comisiwn y Gyfraith o'r ddeddfwriaeth ynglŷn â rheoleiddio gofal iechyd.[58] Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi ar gyfer canlyniadau posibl yr adolygiadau hyn.

**Diffygion sylweddol mewn diogelwch amddiffynnol gan gynnwys colli data**

Yn unol â pholisïau'r CNB, mae'n rhaid rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth, gan gynnwys datgelu data heb awdurdod. Mae ein diffiniad o ddigwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth yn cynnwys digwyddiadau lle y gallai data fod wedi'i ddatgelu ond na ddatgelwyd unrhyw ddata heb awdurdod mewn gwirionedd. Caiff pob digwyddiad ei fonitro gan y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Gwybodaeth sy'n atebol i Grŵp y Cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau y caiff dysgu ei nodi er mwyn atal y fath beth rhag digwydd eto.

Yn ystod 2011-2012, cafwyd 36 o ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth, roedd 26 ohonynt yn ymwneud â thor-cyfrinachedd. Ystyriwyd un achos o ddatgelu data heb awdurdod a oedd yn ddigon difrifol i roi gwybod amdano i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae un achos yn ymwneud â thwyll hunaniaeth a oedd yn cynnwys unigolyn cofrestredig wedi bod yn destun ymchwiliad gan yr heddlu.

**Sylwadau i gloi**

Er ein bod yn ymwybodol o faint yr her sy'n ein hwynebu, rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â'r holl wendidau yn ein trefniadau sefydliadol er mwyn sicrhau bod y CNB yn cyflawni ei ddiben i ddiogelu'r cyhoedd yn effeithiol. Byddwn yn:

- Cynnal cofrestr gywir, hygyrch o bob nyrs a bydwraig sy'n addas i ymarfer yn y DU.
- Gosod a gorfodi'r safonau ymarfer proffesiynol sylfaenol ledled y DU y mae'n rhaid i bob nyrs a bydwraig eu cyrraedd er mwyn bod ar y gofrestr.
- Sicrhau ansawdd addysg nyrsio a bydwreigiaeth mewn ffordd gymesur, gan ystyried canfyddiadau adolygiadau ansawdd Prifysgolion ac adroddiadau rheoleiddwyr arfer.
- Symleiddio a gwella'r modd y rheolir gweithgarwch addasrwydd i ymarfer er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion yn amserol er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Byddwn wedi llwyddo os byddwn yn adfer hyder y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn rôl y CNB fel rheoleiddiwr effeithiol.

---

[57] www.midstaffspublicinquiry.com.
[58] www.lawcommission.justice.gov.uk/consultations/healthcare

**Yr Athro Judith Ellis MBE**
**Dirprwy Gadeirydd**

**CNB**
**4 Medi 2012**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro**
**CNB**
**4 Medi 2012**

# Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 sy'n cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a roddwyd ar waith wrth eu paratoi yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Dim ond i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, y gwneir yr adroddiad hwn, a hynny'n unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno, adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu'r Cyngor o'r materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu ohonynt mewn Adroddiad Archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r elusen a'r Cyngor, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

**Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r archwilydd**

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor, mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fe'n penodwyd fel archwilwyr o dan adran 44(1)(c) o Ddeddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 ac o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rydym yn cyflwyno adroddiadau i chi yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 44(1)(c) ac adran 154 o'r Deddfau hynny yn y drefn honno. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a llunio barn arnynt yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

**Cwmpas archwiliad y datganiadau ariannol**

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Fel rhan o hyn asesir y canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r elusen ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, rydym yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn Adroddiad y Cyngor er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Os down yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg ystyriwn y goblygiadau i'n hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2012 ynghyd â'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r ffordd y cymhwyswyd adnoddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;

- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a rheoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd).

**Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y mae Deddf Elusennau 2011 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn ein barn ni:

- y mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad y Cyngor yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol; neu

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir a digonol; neu

- nid yw'r datganiadau ariannol yn gydnaws â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu

- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

haysmacintyre
Cyfrifwyr Siartredig
Archwilwyr Cofrestredig

Fairfax House
15 Fulwood Place
London
WC1V 6AY

**4 Medi 2012**

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Dau Dŷ'r Senedd

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth y nodir ei bod wedi'i harchwilio yn yr adroddiad hwnnw.

### Priod gyfrifoldebau'r Cyngor, y Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn fanylach yn y 'Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'i Brif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro', mae'r Cyngor a'r Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro yn gyfrifol fel y Swyddog Cyfrifyddu am baratoi datganiadau ariannol ac am fodloni eu hun bod y datganiadau hynny yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol a chyflwyno adroddiadau arnynt yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

### Cwmpas Archwiliad y Datganiadau Ariannol

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Fel rhan o hyn asesir y canlynol: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Hefyd, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr adnoddau sy'n dod i mewn a'r adnoddau a ddefnyddiwyd a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

### Barn ar Reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r adnoddau a ddefnyddiwyd a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

**Barn ar ddatganiadau ariannol**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar 31 Mawrth 2012 ac o'i adnoddau sy'n dod i mewn a'i adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;

- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor a gyhoeddwyd yn ôl y gofynion hynny.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Cyfrin Gyngor o dan Erthygl 52 o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adolygiad Ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiadau arnynt drwy eithriad**

Nid oes angen i mi gyflwyno adroddiadau mewn perthynas â'r materion canlynol y'ch hysbysaf ohonynt os, yn fy marn i:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu nid oes ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad ymwelodd fy staff â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth i'w harchwilio yn gydnaws â'r cofnodion neu'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Amyas C E Morse**
**Comptroller and Auditor General**
**National Audit Office**
**157-197 Buckingham Palace Road**
**Victoria**
**London**
**SW1W 9SP**

**10 Medi 2012**

# Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | Nodyn | Cronfeydd anghyfyngedig 2012 £'000 | Cronfeydd cyfyngedig 2012 £'000 | Cyfanswm cronfeydd 2012 £'000 | Cyfanswm cronfeydd 2011 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau sy'n dod i mewn** | | | | | |
| Adnoddau a ddaeth i mewn o weithgareddau elusennol: | | | | | |
| • Incwm ffioedd | 3 | **51,581** | **-** | **51,581** | 51,397 |
| Adnoddau a ddaeth i mewn o gronfeydd a gynhyrchwyd: | | | | | |
| • Incwm buddsoddiadau | 2 | **1,200** | **-** | **1,200** | 876 |
| • Incwm masnachu | 4 | **-** | **-** | **-** | 5 |
| • Grant (Yr Adran Iechyd) | 26 | **-** | **-** | **-** | 189 |
| **Cyfanswm yr adnoddau sy'n dod i mewn** | | **52,781** | **-** | **52,781** | 52,467 |
| **Adnoddau a ddefnyddiwyd** | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 5 | **54,672** | **235** | **54,907** | 37,723 |
| Costau llywodraethu | 6 | **3,552** | **-** | **3,552** | 3,771 |
| Adnoddau eraill a ddefnyddiwyd: | | | | | |
| • Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | 7 | **2,732** | **-** | **2,732** | 3,222 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwyd** | | **60,956** | **235** | **61,191** | 44,716 |
| **Adnoddau (sy'n mynd allan)/sy'n dod i mewn net o weithrediadau** | | **(8,175)** | **(235)** | **(8,410)** | 7,751 |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | **(8,175)** | **(235)** | **(8,410)** | 7,751 |
| Cronfeydd wrth gefn a ddygwyd ymlaen | | **49,724** | **355** | **50,079** | 42,328 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | **41,549** | **120** | **41,669** | 50,079 |

Deilliodd holl weithgareddau'r Cyngor yn y ddwy flwyddyn ariannol uchod o weithrediadau parhaus. Mae'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig wedi'u cynnwys yn y datganiad uchod. Mae'r nodiadau ar dudalennau 63 i 82 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Y Fantolen ar 31 Mawrth 2012

| | Nodyn | 2012 £'000 | 2011 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | |
| Asedau diriaethol | 14 | **18,416** | 17,177 |
| **Cyfanswm asedau sefydlog** | | **18,416** | 17,177 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 16 | **1,557** | 1,204 |
| Adneuon byrdymor | 23 | **60,000** | 66,500 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 23 | **5,432** | 3,747 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **66,989** | 71,451 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| **Credydwyr** (symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn) | 17 | **(43,640)** | (38,431) |
| **Asedau cyfredol net** | | **23,349** | 33,020 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **41,765** | 50,197 |
| **Credydwyr** (symiau sy’n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn) | 18 | **(96)** | (118) |
| **Asedau net** | | **41,669** | 50,079 |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | 26 | **120** | 355 |
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | **41,549** | 49,724 |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | | **41,669** | 50,079 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 63 i 82 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Yr Athro Judith Ellis MBE**
**Dirprwy Gadeirydd**

**CNB**
**4 Medi 2012**

**Jackie Smith**
**Prif Weithredwr a Chofrestrydd Dros Dro**

**CNB**
**4 Medi 2012**

# Datganiad llif arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | | | 2012 | | 2011 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | **£'000** | **£'000** | £'000 | £'000 |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | 22 | | **(2,141)** | | 10,107 |
| **Elw o fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | | | |
| Llog a gafwyd | 2 | **1,200** | | 876 | |
| **Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol** | | | | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | 14 | **(3,874)** | | (980) | |
| | | | **(2,674)** | | (104) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod yn ystod y flwyddyn** | | | **(4,815)** | | 10,003 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 63 i 82 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

## 1 Polisïau cyfrifyddu

Paratoir y cyfrifon yn unol â'r Penderfyniad Cyfrifon (gweler Atodiad 1) gan y Cyfrin Gyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfrifon gael eu paratoi mewn cydymffurfiaeth â'r *Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Cyfrifyddu a Chyflwyno Adroddiadau gan Elusennau* (SoRP Elusennau 2005) a bod y cyfrifon yn ystyried gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol i'r graddau y mae'r gofynion hynny yn egluro gofynion y SoRP Elusennau neu'n adeiladu arnynt.

### a) Confensiwn cyfrifyddu

Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd i gynnwys ailbrisio rhai asedau sefydlog.

### b) Asedau sefydlog

Dibrisir asedau sefydlog diriaethol er mwyn gostwng eu gwerth nominal i £1 dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig mewn rhandaliadau cyfartal fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarpar | - | 3 oed |
| Dodrefn | - | 10 mlynedd |
| Ailwampio - 23 Portland Place | - | 10 mlynedd |
| Adeilad ar Brydles - 23 Portland Place | - | 50 mlynedd |
| Adeilad ar Brydles - 61 Aldwych | - | 10 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Adeilad ar Brydles – Clarendon House | - | 10 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Adeilad ar Brydles – 1 Kemble Street | | 8.5 mlynedd (dros gyfnod y brydles) |
| Prosiectau TG | - | 3 blynedd |

Cyfalafwyd asedau sefydlog diriaethol sy'n werth dros £1,000.

Mae gan y CNB bolisi o ailbrisio ei eiddo ar brydles bob pum mlynedd gan gynnal adolygiad lleihad mewn gwerth interim yn y drydedd flwyddyn yn unol ag FRS15, ac ailbrisiad interim yn y cyfamser lle mae'n debygol y bu newid perthnasol mewn gwerth.

### c) Adnoddau sy'n codi – incwm

**Incwm buddsoddiadau**

Rhoddir cyfrif am incwm buddsoddiadau pan fo'n dderbyniadwy ac mae'n cynnwys unrhyw dreth gysylltiedig y gellir ei hadennill.

**Incwm o weithgareddau elusennol**

Credydwyd ffioedd cofrestru, dilysu a disodli cerdyn rhif adnabod personol i'r incwm ar y diwrnod derbyn. Dyrannwyd ffioedd cyfnodol i'r flwyddyn ariannol briodol yn seiliedig ar y cysyniad o groniadau. Mae a wnelo ffioedd cyfnodol ag adnewyddu neu gynnal statws cofrestru yn flynyddol.

**Incwm masnachu**

Cydnabyddir incwm masnachu yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan fo'n dderbyniadwy. Deilliodd incwm masnachu o hysbysebion yn *NMC News*, y rhoddwyd y gorau i'w gyhoeddi yn 2010.

**ch) Dyrannu costau**

Mae costau gweithredu'r CNB yn cynnwys costau staff, costau adeiladau a chostau cysylltiedig eraill. Dyrennir costau o'r fath rhwng gwariant elusennol uniongyrchol, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd a llywodraethu. Dyrennir costau staff yn ôl costau staff sy'n gweithio'n uniongyrchol yn yr adrannau perthnasol. Dyrennir costau adeiladau yn ôl y defnydd a wneir ohonynt a nifer y staff ym mhob adran a dosrennir costau eraill i adrannau ar sail briodol (er enghraifft defnydd, nifer y staff).

**Gweithgareddau elusennol**

Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys unrhyw wariant sy'n ymwneud ag amcanion yr elusen sy'n cynnwys addasrwydd i ymarfer, cynnal y gofrestr, addysg a hyrwyddo safonau a datblygu polisïau.

**Costau llywodraethu**

Mae costau llywodraethu yn ymwneud â gwariant yr eir iddo wrth reoli asedau'r CNB, gweinyddu'r sefydliad a chydymffurfio â gofynion statudol.

**Gwariant arall**

Mae gwariant arall yn cynnwys:

**Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd**

Mae costau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn ymwneud â chostau'r gyfarwyddiaeth Materion Allanol, y mae ei phrif elfennau yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwaith sy'n gysylltiedig â Senedd Ewrop a Senedd y DU, cynadleddau a digwyddiadau, cysylltiadau â'r cyfryngau a gwariant ar gyhoeddiadau'r CNB.

**d) Costau datblygu**

Caiff costau mewnol yr aed iddynt wrth ddatblygu meddalwedd eu dileu yn y flwyddyn yr eir iddynt.

**dd) Rhoi cyfrif am gronfeydd**

Mae'r Cyngor yn cadw amryw fathau o gronfeydd fel a ganlyn:

i) Cronfeydd cyfyngedig

Dyma'r cronfeydd sydd i'w defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a osodwyd gan roddwyr. Amlinellir nod a defnydd pob cronfa gyfyngedig yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

ii) Cronfeydd anghyfyngedig

Dyma'r cronfeydd sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y Cyngor er mwyn cyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad ac nas dynodwyd at ddibenion eraill.

### e) Asedau ar brydles

Codir rhenti sy'n gymwys i brydlesi gweithredol, lle mae'r rhan helaeth o fuddiannau a risgiau perchenogaeth yn dod i ran y prydleswr, ar y datganiad o weithgareddau ariannol mewn symiau cyfartal dros gyfnodau'r prydlesi.

### f) Costau pensiwn

Darperir buddiannau ymddeol gan gynllun buddiannau diffiniedig, a ariennir gan gyfraniadau gan y CNB a chyflogeion. Gwneir taliadau i ymddiriedolaeth bensiwn, sydd ar wahân i'r CNB yn ariannol. Gwneir y taliadau hyn yn unol â chyfrifiadau cyfnodol gan actiwarïaid â chymwysterau proffesiynol. Rhoddir cyfrif am gostau pensiwn ar sail codi tâl am gost ddisgwyliedig darparu pensiynau dros y cyfnod pan fydd y CNB yn cael budd o wasanaethau'r cyflogeion. Lledaenir effaith amrywiadau i gostau rheolaidd dros gyfnod o amser a bennir gan yr ymddiriedolaeth bensiwn.

## 2 Incwm buddsoddiadau

| | **2012** | 20 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Llog derbyniadwy | | |
| • o adneuon mewn banciau | **1,200** | 876 |
| | **1,200** | 876 |

## 3 Incwm ffioedd

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Ffioedd cyfnodol | **51,002** | 50,752 |
| Cofrestru | **389** | 509 |
| Dilysu | **184** | 129 |
| Disodli cardiau rhif adnabod personol | **6** | 7 |
| | **51,581** | 51,397 |

## 4 Incwm arall

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |

**Incwm masnachu**

| | | |
|---|---|---|
| NMC News | - | 5 |
| | **-** | 5 |

## 5 Gweithgareddau elusennol

| | **Anghyfyngedig £'000** | **Cyfyngedig £'000** | **2012 £'000** | 2011 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **2,998** | **235** | **3,233** | 3,556 |
| Addysg | **2,378** | **-** | **2,378** | 1,659 |
| Cynnal y gofrestr | **8,147** | **-** | **8,147** | 6,400 |
| Addasrwydd i ymarfer | **41,149** | **-** | **41,149** | 26,108 |
| | **54,672** | **235** | **54,907** | 37,723 |

Mae'r costau hyn yn cynnwys costau uniongyrchol,[59] costau staff a gorbenion cysylltiedig.

## 6 Costau llywodraethu

| | **2012 £'000** | 2011 £'000 |
|---|---|---|
| Lwfansau, costau teithio a chynhaliaeth aelodau | **291** | 309 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio - haysmacintyre | **24** | 23 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio - y Swyddfa Archwilio Genedlaethol | **5** | 5 |
| Dyrannu costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau)[60] | **3,232** | 3,434 |
| | **3,552** | 3,771 |

## 7 Gwariant arall - Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd

| | **2012 £'000** | 2011 £'000 |
|---|---|---|
| Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd | **112** | 209 |
| Cyfathrebu | **66** | 86 |
| Argraffu cyhoeddiadau'r CNB | **475** | 939 |
| Dyrannu costau gweithredu (gan gynnwys cyflogau)[61] | **2,079** | 1,988 |
| | **2,732** | 3,222 |

[59] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 9
[60] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, 1ch)
[61] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, 1ch)

## 8 Costau gweithgareddau elusennol

| | **Costau staff £'000** | **Dibrisiant £'000** | **Costau eraill £'000** | **Cyfanswm 2012 £'000** | Cyfanswm 2011 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau elusennol: | | | | | |
| • Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **2,171** | **174** | **888** | **3,233** | 3,556 |
| • Addysg | **806** | **60** | **1,512** | **2,378** | 1,659 |
| • Cynnal y gofrestr | **4,189** | **387** | **3,571** | **8,147** | 6,400 |
| • Addasrwydd i ymarfer | **9,786** | **1,754** | **29,609** | **41,149** | 26,108 |
| Costau llywodraethu | **2,450** | **113** | **989** | **3,552** | 3,771 |
| Gwariant arall: | | | | | |
| • Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | **1,334** | **147** | **1,251** | **2,732** | 3,222 |
| | **20,736** | **2,635** | **37,820** | **61,191** | 44,716 |

## 9 Dadansoddi costau uniongyrchol

| | **Costau uniongyrchol £'000** | **Costau cymorth £'000** | **Cyfanswm 2012 £'000** | Cyfanswm 2011 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau elusennol:** | | | | |
| • Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | **2,657** | **576** | **3,233** | 3,556 |
| • Addysg | **2,179** | **199** | **2,378** | 1,659 |
| • Cynnal y gofrestr | **6,862** | **1,285** | **8,147** | 6,400 |
| • Addasrwydd i ymarfer | **37,450** | **3,699** | **41,149** | 26,108 |
| **Is-gyfanswm gweithgareddau elusennol** | **49,148** | **5,759** | **54,907** | 37,723 |
| • Llywodraethu: | **3,175** | **377** | **3,552** | 3,771 |
| • Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | **2,245** | **487** | **2,732** | 3,222 |
| **Cyfanswm** | **54,568** | **6,623** | **61,191** | 44,716 |

## 10 Dadansoddi costau cymorth

| Cost cymorth | Hyrwyddo safonau a datblygu polisïau | Addysg | Cynnal y gofrestr | Addasrwydd i Ymarfer | Llywodraethu: | Cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd | Cyfanswm 2012 | Cyfanswm 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfleusterau | 68 | 23 | 151 | 435 | 44 | 57 | **778** | 625 |
| Cyllid | 154 | 54 | 345 | 993 | 101 | 131 | **1,778** | 1,502 |
| Adnoddau Dynol | 140 | 48 | 312 | 899 | 92 | 118 | **1,609** | 1,172 |
| TGCh | 214 | 74 | 477 | 1,372 | 140 | 181 | **2,458** | 3,958 |
| | **576** | **199** | **1,285** | **3,699** | **377** | **487** | **6,623** | 7,257 |

Dyrannwyd y costau cymorth ar sail nifer y staff ym mhob maes

## 11 Cyfanswm yr adnoddau a ddefnyddiwyd yn ôl dosbarthiad naturiol

| | **2012 £'000** | 2011 £'000 | **Manylion (gweler y dudalen nesaf)** |
|---|---|---|---|
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | **20,736** | 16,889 | 11.1 |
| Costau staff eraill | **1,043** | 735 | 11.2 |
| Safleoedd | **3,068** | 1,920 | 11.3 |
| Yswiriant | **97** | 77 | |
| Eitemau amrywiol, dodrefn, cyfarpar a gwaith cynnal a chadw | **230** | 126 | 11.4 |
| Llogi cyfarpar | **5** | 7 | |
| Addasrwydd i Ymarfer | **23,705** | 13,953 | 11.5 |
| Dibrisiant | **2,635** | 2,369 | 11.6 |
| Gwasanaeth arlwyo ar gyfer gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer a chyfarfodydd yn 61 Aldwych | **170** | 159 | |
| Ffreutur y staff | **232** | 251 | |
| Cost sicrhau ansawdd addysg | **1,068** | 881 | 11.7 |
| Costau adolygu'r Awdurdod Goruchwylio Lleol | **56** | 39 | 11.8 |
| Ffioedd proffesiynol | **2,495** | 2,082 | 11.9 |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio | **24** | 23 | |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr - ffioedd archwilio (Swyddfa Archwilio Genedlaethol) | **5** | 5 | |
| Datblygu TG a chymorth TG | **1,798** | 1,415 | 11.10 |
| Tâl postio | **690** | 560 | |
| Cost argraffu a deunydd ysgrifennu | **842** | 801 | |
| Hysbysebu a recriwtio | **788** | 378 | 11.11 |
| Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd | **112** | 209 | 11.12 |
| Argraffu cyhoeddiadau'r CNB | **475** | 939 | 11.13 |
| Lwfansau, costau teithio a chynhaliaeth aelodau | **291** | 309 | |
| Costau pwyllgorau | **135** | 149 | |
| Costau cymorth eraill | **491** | 440 | 11.14 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | **61,191** | 44,716 | |

**Manylion ychwanegol ar gyfer y tabl yn nodyn 11**

### 11.1 Cyflogau a chostau cysylltiedig

Cynyddwyd y buddsoddiad mewn adnoddau staff yn 2011-2012 yn bennaf ym maes Addasrwydd i Ymarfer. Mae angen yr adnoddau cynyddol hyn i reoli'r nifer gynyddol o achosion mwyfwy cymhleth sy'n cael eu hatgyfeirio atom a sicrhau'r gwelliannau sylweddol mewn amseroldeb, ansawdd a gwasanaeth cwsmeriaid a nodwyd gan y CHRE, er mwyn diogelu'r cyhoedd yn unol â safonau rheoleiddio da. At hynny, cafwyd mwy o fuddsoddiad mewn staff yng nghyfarwyddiaeth Safonau a Pholisi'r CNB a'r gyfarwyddiaeth Addysg, er mwyn atgyfnerthu prosesau cyflawni yn y meysydd hyn.

Hefyd, defnyddiwyd adnoddau ychwanegol i helpu i gyflawni nifer o brosiectau.

### 11.2 Costau staff eraill

Gwelodd maes Addasrwydd i Ymarfer gynnydd yng nghostau teithio staff yr aed iddynt yn ystod y flwyddyn i wasanaethu'r nifer gynyddol o wrandawiadau (gan gynnwys gwrandawiadau yn ymwneud â gorchmynion dros dro). At hynny, buddsoddwyd mwy mewn hyfforddiant saff a gweithgarwch datblygu yn ystod 2011-2012, yn unol â'r cynnydd yn nifer y staff, a rhoddwyd mwy o sylw i'r maes hwn.

### 11.3 Adeiladau

Gwnaed newidiadau mawr yn ein hystad yn ystod 2011-2012 er mwyn darparu ar gyfer lefelau staff uwch a sicrhau bod gennym adeiladau penodedig sy'n addas at y diben ar gyfer gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer ledled y DU. Cymerwyd swyddfeydd yn Clarendon House, Caeredin ar brydles o fis Mawrth 2011 ac yn 1 Kemble Street, Llundain o fis Mehefin 2011. At hynny, buom yn rhentu swyddfeydd â gwasanaethau yn Temple Court, Caerdydd, o fis Tachwedd 2011.

### 11.4 Eitemau amrywiol, dodrefn, cyfarpar a gwaith cynnal a chadw

Mae'r cynnydd i'w briodoli i gynnydd yn nifer y dechreuwyr newydd y mae angen darparu cyfarpar a dodrefn ar eu cyfer.

### 11.5 Addasrwydd i Ymarfer

Gweler adran 4 o'r adroddiad blynyddol i gael manylion am weithgarwch Addasrwydd i Ymarfer yn ystod y flwyddyn. Roedd y cynnydd mewn costau yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r lefel sylweddol uwch o weithgarwch ymchwilio a gwrando a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

### 11.6 Dibrisiant

Mae taliadau dibrisio cynyddol i'w priodoli i flwyddyn lawn o ddibrisiant ar wariant ar seilwaith TGCh a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd angen y gwariant er mwyn moderneiddio arferion gwaith a sicrhau bod systemau a phrosesau TG yn addas at y diben. At hynny, bu blwyddyn o ddibrisiant ar y prosiect cyfalaf i ailgyfarparu swyddfeydd yn Clarendon House, Caeredin.

### 11.7 Cost sicrhau ansawdd addysg

Mae'r cynnydd i'w briodoli i lefel uwch o weithgarwch monitro yn ystod 2011-2012, am fod y ffocws a'r gwaith craffu cychwynnol wedi gorfod cael eu hymestyn mewn nifer o ddigwyddiadau monitro, o ganlyniad i adroddiadau anffafriol gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) neu broblemau difrifol a oedd yn ymwneud â llywodraethu clinigol ym mannau dysgu penodol lleoliadau ymarfer. At hynny, cywasgwyd yr amserlen ar gyfer y rhaglen fonitro i mewn i un flwyddyn ariannol, yn yr achos hwn 2011-2012, yn hytrach nag ymestyn y rhaglen fonitro dros ddwy flwyddyn ariannol. Cytunwyd ar y dull gweithredu hwn gan ddisgwyl y byddai'r broses o gyflawni'r fframwaith Sicrhau Ansawdd yn newid i ddarpariaeth fewnol yn ystod 2012-2013. Ystyriwyd cynnal arfarniad arall o opsiynau mewn perthynas â sicrhau ansawdd ym mis Mehefin 2012.

### 11.8 Costau adolygu Awdurdodau Goruchwylio Lleol

Mae'r cynnydd i'w briodoli i'r adolygiad arbennig o Ymddiriedolaeth Sefydledig y GIG Ysbytai Prifysgol Bae Morecambe yn 2011-2012, a gynhaliwyd ar y cyd â'r Comisiwn Ansawdd Gofal, o ganlyniad i bryderon a leisiwyd ynghylch ansawdd gwaith goruchwylio bydwragedd a gofal mamolaeth yn yr ymddiriedolaeth. At hynny, aed i wariant yn ystod 2011-2012 ar recriwtio a hyfforddi adolygwyr newydd ar gyfer Awdurdodau Goruchwylio Lleol.

### 11.9 Ffioedd proffesiynol

Roedd angen lefel uwch o arbenigedd proffesiynol a chyfreithiol allanol yn 2011-2012 i gefnogi nifer o brosiectau allweddol y CNB, gan gynnwys gwelliannau i weithrediad y system rheoli achosion Addasrwydd i Ymarfer a'r defnydd a wneid ohoni, y gwaith o gyflawni profion gallu a rhaglenni addasu'r UE, ein cyfraniad at yr ymchwiliad i safonau gofal yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canol Swydd Stafford, adolygiad o'r modd rydym yn darparu addysg ym maes sicrhau ansawdd a gwelliannau i brosesau cofrestriadau. Cyflogwyd ymgynghorwyr i roi cyngor ar nifer o agweddau ar y modd y cyflawnir gwaith Addasrwydd i Ymarfer ac y darperir adnoddau ar ei gyfer, gan gynnwys y fenter bwysig i ddod â gwaith ymchwilio i achosion o fewn y CNB. At hynny, rydym yn parhau i ymgynghori, o safbwynt Adnoddau Dynol ac yn gyffredinol, ar y newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith mewn perthynas â strwythur sefydliadol gwaith y CNB a'i ffocws strategol yn y dyfodol.

### 11.10 Datblygu TG a chymorth TG

Mae'r cynnydd i'w briodoli'n bennaf i flwyddyn lawn o'r contract ar gyfer y gwaith o gynnal a chefnogi ein seilwaith TGCh craidd a osodwyd ar gontract allanol, a oedd yn weithredol o fis Awst 2010. Bydd yn sicrhau bod gennym wasanaeth mwy hyblyg, costeffeithiol a chadarn. At hynny, gwelwyd cynnydd yng nghostau trwyddedau a gwaith cynnal a chadw meddalwedd, i gefnogi'r buddsoddiad cyfalaf uwch mewn systemau a'r nifer gynyddol o ddefnyddwyr ym mhob rhan o'r CNB.

### 11.11 Hysbysebu a recriwtio

Cynyddodd gweithgarwch recriwtio yn ystod 2011-2012, er mwyn llenwi'r rolau ychwanegol sydd eu hangen ym maes Addasrwydd i Ymarfer a'r cyfarwyddiaethau

rheoleiddio eraill. Cynhaliwyd nifer o ymarferion recriwtio yn ystod y flwyddyn ar gyfer uwch benodiadau. At hynny, cynhaliwyd ymarfer recriwtio pwysig ar gyfer cadeiryddion newydd paneli Addasrwydd i Ymarfer.

**11.12 Cynadleddau, seminarau a chyhoeddusrwydd**

Mae'r lleihad yn deillio o ganolbwyntio ar y gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu mwyaf effeithiol a lleihau costau lle bynnag y bo modd.

**11.13 Argraffu cyhoeddiadau'r CNB**

Mae'r lleihad i'w briodoli i'r penderfyniad i ailgyfeirio buddsoddiad i ystod eang o ddulliau cyfathrebu amgen, wedi'u targedu â nyrsys a bydwragedd gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt ar-lein. At hynny, roedd cryn dipyn o gostau cyhoeddi a dosbarthu yn 2010-2011 ar gyfer gwaith *Fit for you*, ymgyrch bost y bwriadwyd iddi nodi'r dulliau cyfathrebu a oedd yn cael eu ffafrio gan bob nyrs a bydwraig ac ar gyfer *Raising and escalating concerns: Guidance for nurses and midwives,* yr anfonwyd copi at bawb ar y gofrestr ym mis Tachwedd 2010. Ni chafwyd unrhyw ymgyrchoedd post o'r fath yn 2011-2012.

**11.4 Costau cymorth eraill**

Mae costau cymorth eraill yn cynnwys costau ein system ffôn, costau cyfathrebu cyffredinol a thaliadau banc.

## 12 Gwybodaeth am gyflogeion

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| **Cyflogau a chostau cysylltiedig** | | |
| Cyflogau[62] | | |
| • Rheoli | **941** | 754 |
| • Gweinyddu | **11,908** | 9,386 |
| Costau nawdd cymdeithasol (Cyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr): | | |
| • Rheoli | **97** | 79 |
| • Gweinyddu | **1,020** | 794 |
| Costau pensiwn - staff presennol:[63] | | |
| • Rheoli | **189** | 164 |
| • Gweinyddu | **2,779** | 2,496 |
| Costau pensiwn - staff sefydliadau blaenorol sydd wedi ymddeol[64] | **25** | 25 |
| Staff dros dro | **3,777** | 3,191 |
| | **20,736** | 16,889 |

### Gwybodaeth am yr uwch dîm rheoli

Mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chofrestrydd a'r cyfarwyddwyr. Nodir isod gyfanswm cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr:

| **Bandiau cyflog** (£) | **2012** **Nifer y staff** | 2011 Nifer y staff |
|---|---|---|
| 10,001 - 20,000 | **0** | 1 |
| 20,001 - 30,000 | **1** | 0 |
| 30,001 - 40,000 | **1** | 0 |
| 50,001 - 60,000 | **0** | 1 |
| 60,001 - 70,000 | **1** | 1 |
| 70,001 - 80,000 | **2** | 1 |
| 80,001 - 90,000 | **1** | 1 |
| 90,001 - 100,000 | **0** | 1 |
| 100,001 - 110,000 | **0** | 2 |

[62] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 11.1
[63] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 20
[64] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 20

| | | |
|---|---|---|
| 110,001 - 120,000 | **1** | 0 |
| 120,001 - 130,000 | **2** | 0 |
| 140,001 - 150,000 | **0** | 1 |

Yn ystod y flwyddyn, roedd y benthyciadau ar gyfer tocyn tymor a roddwyd i'r cyfarwyddwyr fel a ganlyn:

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| L Mallors | **1,001-1,500** | - |
| S Atkinson | **1,001-1,500** | 1,001 – 1,500 |
| S Williams | **2,001 – 2,500** | 2,001 – 2,500 |
| R Thompson | **3,501 – 4,000** | 3,501 – 4,000 |

Nodir isod gyfanswm y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2012 ar gyfer y cyfarwyddwyr hynny sy'n cymryd rhan yng nghynllun pensiwn y CNB:

| **Cyfanswm y pensiwn a gronnwyd yn 60 oed ar 31 Mawrth 2012** (£) | **2012 Nifer y staff** | 2011 Nifer y staff |
|---|---|---|
| 0 - 5,000 | **4** | 5 |
| 5,001 - 10,000 | **2** | 2 |
| 10,001 - 15,000 | **1** | 2 |
| 15,001 – 20,000 | **1** | 0 |

Mae cyfarwyddwyr yn aelodau cyffredin o gynllun pensiwn y CNB.

Rhoddir buddiannau pensiwn drwy gynllun a weithredir gan Premier Pensions Management Limited. Rhydd y cynllun fuddiannau ar sail 'cyflog terfynol' ar oedran ymddeol arferol o 60 oed. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60fed o gyflog pensiynadwy am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, gall aelodau ddewis cyfnewid rhan o'u pensiwn am gyfandaliad di-dreth. Gallant hefyd dderbyn llai o bensiwn er mwyn darparu pensiwn i enwebai sy'n goroesi. Os bydd unigolyn yn marw o fewn pum mlynedd i'r adeg y gwnaeth ymddeol, telir cyfandaliad sy'n unol â balans y pensiwn y byddai'r pensiynwr wedi'i gael petai wedi byw am bum mlynedd ar ôl ymddeol.

Os bydd aelod yn marw mewn gwasanaeth, mae cyfandaliad yn cyfateb i ddwywaith y cyflog pensiynadwy yn daladwy a chaiff holl gyfraniadau'r aelod eu dychwelyd ynghyd â llog di-dreth cyfansawdd o 3 y cant y flwyddyn. Os bydd cyflogai presennol yn marw a bod ganddo gymar sy'n goroesi, telir pensiwn sy'n 1/160fed o'r cyflog pensiynadwy hefyd, am bob blwyddyn o wasanaeth y gallai'r aelod fod wedi'i chwblhau hyd at oedran pensiwn arferol.

Gellir ymddeol am resymau meddygol os bydd analluogrwydd parhaol. Yn yr achos hwn telir pensiynau ar unwaith heb unrhyw ostyngiad actiwaraidd.

**Gwybodaeth arall am gyflogeion**

Yn ogystal â'r uchod, roedd 15 (2011: 10) aelod arall o staff yr oedd eu cydnabyddiaeth yn dod o fewn y bandiau canlynol:

| | **2012**<br>**Nifer y staff** | 2011<br>Nifer y staff |
|---|---|---|
| £60,001 - £70,000 | **12** | 6 |
| £70,001 - £80,000 | **1** | 3 |
| £80,001 - £90,000 | **1** | 0 |
| £90,001 - £100,000 | **0** | 1 |
| £100,001 - £110,000 | **1** | 0 |

Nifer gyfartalog y cyflogeion yn ystod y flwyddyn oedd 370 (naw rheolwr a 361 o staff gweinyddol) ac yn ystod y flwyddyn flaenorol roedd 286 o gyflogeion (wyth rheolwr a 278 o staff gweinyddol). Mae'r cynnydd yn nifer y staff i'w briodoli i'r angen am staff ychwanegol yn ein cyfarwyddiaeth Addasrwydd i Ymarfer (gweler nodyn 11.1).

**13 Trethiant**

O ganlyniad i'w statws elusennol nid oes rhaid i'r Cyngor dalu treth gorfforaeth ar ei weithgareddau elusennol. Nid oes rhaid iddo ychwaith dalu treth enillion cyfalaf ar unrhyw asedau a gaiff eu gwerthu lle y defnyddir yr elw at ddibenion elusennol.

## 14 Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen

| | Dodrefn | Cyfarpar | Adnewyddu adeiladau | Adeiladau ar brydles hir Nodyn 14.1 | Adeilad 61 Aldwych Kemble St. | Prosiectau TG Nodyn 14.2 | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** |
| Cost: | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2011 | 316 | 2,721 | 5,687 | 9,772 | 1,770 | 3,392 | **23,658** |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | - | 865 | 807 | - | 2,202 | - | **3,874** |
| 31 Mawrth 2012 | 316 | 3,586 | 6,494 | 9,772 | 3,972 | 3,392 | **27,532** |
| | | | | | | | |
| Dibrisiant: | | | | | | | |
| 1 Ebrill 2011 | 141 | 1,628 | 2,199 | 195 | 398 | 1,920 | **6,481** |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 31 | 439 | 657 | 196 | 222 | 1,090 | **2,635** |
| 31 Mawrth 2012 | 172 | 2,067 | 2,856 | 391 | 620 | 3,010 | **9,116** |
| | | | | | | | |
| **Gwerth llyfr net 31 Mawrth 2012** | **144** | **1,519** | **3,638** | **9,381** | **3,352** | **382** | **18,416** |
| Gwerth llyfr net 31 Mawrth 2011 | 175 | 1,093 | 3,488 | 9,577 | 1,372 | 1,472 | 17,177 |

## 14 Asedau sefydlog diriaethol at ddefnydd yr elusen – parhad

14.1 Caffaelodd yr UKCC (y corff a ragflaenodd y CNB) y buddiant lesddaliad yn 23 Portland Place, Llundain W23B 1PZ oddi wrth Gyngor Nyrsio Cyffredinol Cymru a Lloegr am ddim cost. Daw'r brydles i ben yn y flwyddyn 2933. Ar 31 Mawrth 2010, cafodd y brydles ei phrisio ar sail defnydd presennol, gan gynnwys y gwaith ailwampio, gan y cwmni prisio allanol Drivers Jonas. Nodwyd ei bod yn werth £13,750,000. Dylid nodi na ellir trosglwyddo'r brydles o ganlyniad i'r cymal defnyddwyr cyfyngedig.

14.2 Mae categori asedau'r prosiectau TG yn cynnwys y system rheoli achosion Addasrwydd i Ymarfer a'r gwaith i wella'r seilwaith TGCh, a gwblhawyd yn ystod 2009-2010.

Ymgymerwyd â'r prosiectau cyfalaf canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Ailgyfarparu swyddfeydd a rentir ar brydles yn 1 Kemble Street, Llundain, i ddarparu ar gyfer staff Addasrwydd i Ymarfer
- Addasu'r swyddfeydd a rentir ar brydles yn 61 Aldwych, Llundain, yn lleoliad penodedig ar gyfer cynnal gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer sy'n cynnwys 10 ystafell gwrando
- Ailgyfarparu swyddfeydd a rentir ar brydles yn Clarendon House, 114-116 George Street, Caeredin
- Rhoi system Rheoli ID ar waith er mwyn hwyluso mynediad diogel i wasanaethau ar-lein y CNB ar gyfer unigion cofrestredig
- Gwella ein gallu i storio data at ddibenion adfer ar ôl trychineb
- Rhoi system adnoddau dynol a chyflogres ar-lein integredig ar waith

## 15 Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn atebol i'r Senedd drwy'r Cyfrin Gyngor. Noda Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 natur y gydberthynas rhwng y CNB a'r Cyfrin Gyngor a'r dulliau adrodd sy'n ofynnol. Er nad yw'n atebol i'r Adran Iechyd, mae'r CNB mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran ynghylch materion polisi a materion eraill.

Rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012 talwyd £48,000 i Gadeirydd y Cyngor (2010-2011: £48,000).

Yn ystod y flwyddyn, talwyd lwfansau a chostau teithio a chynhaliaeth gwerth £291,000 (2010-2011: £309,000) i aelodau'r Cyngor.

Cafodd holl aelodau'r Cyngor eu talu'n uniongyrchol drwy gyflogres y CNB.

Rhoddir manylion y symiau a dalwyd i aelodau unigol y Cyngor yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ar dudalen 35.

Gwnaed croniad o £25,517 (2010 – 2011: £24,394) ar gyfer rhwymedigaethau treth incwm ac yswiriant gwladol posibl mewn perthynas â thaliadau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth aelodau.

## 16 Dyledwyr

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Dyledwyr eraill | **147** | 109 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **1,410** | 1,095 |
| | **1,557** | 1,204 |

## 17 Credydwyr

| Symiau sy’n ddyledus o fewn blwyddyn | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Credydwyr eraill a chroniadau | **13,607** | 8,520 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol (gan gynnwys yswiriant gwladol Cyflogwyr) | **538** | 387 |
| Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2010-2011 | **-** | 29,524 |
| Incwm gohiriedig - Ffioedd cyfnodol ar gyfer 2011-2012 | **29,495** | - |
| | **43,640** | 38,431 |

## 18 Credydwyr

| Symiau sy’n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £’000 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd cyfnodol ar gyfer 2011-2012 | **-** | 118 |
| Incwm gohiriedig - ffioedd cyfnodol ar gyfer 2012-2013 | **96** | - |
| | **96** | 118 |

Mae a wnelo incwm gohiriedig â ffioedd cyfnodol a ragdalwyd, ar gyfer symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 19 Statws elusennol

Ar 27 Mawrth 2002 cafodd y CNB ei gofrestru yng Nghofrestr Ganolog yr Elusennau (rhif elusen 1091434). Yn sgil hyn caniatawyd rhyddhad ardrethi gan Ddinas Westminster. Ceir buddiannau treth hefyd oherwydd y statws hwn[65]. Ar 18 Mehefin 2007 cafodd y CNB ei gofrestru gyda Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif SC038362).

[65] Gweler y Nodiadau i'r Cyfrifon, nodyn 13

## 20 Ymrwymiadau pensiwn

Mae'r CNB yn cymryd rhan, ar y cyd â'r Adran Iechyd, Addysg GIG yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cynllun pensiwn a weinyddir gan Premier Pensions Management Limited (rhif cofrestru'r cynllun 101652586). Mae'r cynllun, y mae tua hanner cyflogeion y CNB yn perthyn iddo, yn gynllun buddiannau diffiniedig a ariennir.

Codir cyfraniadau at y cynllun ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SOFA) er mwyn ymestyn cost pensiynau dros fywydau gwaith cyflogeion. Pennir cyfraniadau gan actiwari cymwys ar sail prisiadau bob tair blynedd.

Cynhaliwyd y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun gan Premier Pensions Management Limited ar 31 Mawrth 2010, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Ar ddyddiad y prisiad gwerth archwiliedig asedau'r cynllun ar y farchnad oedd £78.3 miliwn (heb gynnwys blwydd-daliadau a ddelir ar gyfer pensiynwyr wedi'u hyswirio a chyfraniadau gwirfoddol ychwanegol a fuddsoddwyd mewn cronfeydd ar wahân i ddarparu buddiannau ar sail prynu arian). Roedd gwerth yr asedau yn cyfateb i 91 y cant o werth y buddiannau cronedig i aelodau ar ôl darparu ar gyfer cynnydd disgwyliedig mewn enillion a phensiynau yn y dyfodol. Mae'r diffyg o ran asedau gwasanaethau yn y gorffennol yn cael ei amorteiddio dros 10 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2020. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd yn y prisiad oedd elw gwirioneddol ar fuddsoddiadau uwchlaw codiadau cyflog o 1.5 y cant y flwyddyn ac uwchlaw codiadau pensiwn o 1.5 y cant y flwyddyn.

Roedd y gost pensiwn a aseswyd ar sail cyngor actiwaraidd yn y gorffennol ac a godwyd yn y cyfrifon fel a ganlyn:

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Cyfraniadau'r CNB (cyflogwr) i bob cynllun yn ystod y flwyddyn | **2,968** | 2,660 |
| | **2,968** | 2,660 |
| Cyfraniad y CNB (cyflogwr) | **27.4%** | 24.1% |
| Cyfraniad cyflogeion | **6.0%** | 6.0% |

Pe bai'r cynllun wedi'i ddirwyn i ben ar ddyddiad y prisiad (31 Mawrth 2010), byddai'r asedau wedi cyfateb, fwy neu lai, i 71.6 y cant o'r swm sydd ei angen i brynu contractau yswiriant i dalu buddiannau cronedig aelodau gweithredol ac unigolion a adawodd y cynllun yn y gorffennol a buddiannau cyfredol pensiynwyr. Y diffyg amcangyfrifedig fyddai £31 miliwn.

Mae Cynllun Adfer ar waith i sicrhau y bydd lefel ariannu'r cynllun yn cyrraedd 100 y cant yn seiliedig ar dybiaethau actiwaraidd cyfredol, erbyn 31 Mawrth 2020. Bydd y CNB yn unioni'r diffyg dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020 drwy barhau â'i daliadau presennol o dan y Cynllun Adfer sy'n cyfateb i £1.123 miliwn y flwyddyn.

Safon gyfrifyddu, FRS 17: Ni chynhwyswyd unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas â chyfran y CNB o gyfanswm diffyg y cynllun, sef £7.9 miliwn, ar adeg y prisiad

actiwaraidd diweddaraf (31 Mawrth 2010) yn y cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn, am ei fod yn gynllun aml-gyflogwr ac ni all y CNB nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

O dan yr amgylchiadau hyn, mae FRS 17 yn darparu ar gyfer rhoi cyfrif am y cyfraniad at y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Fel y cyfryw, bydd y gost a gydnabyddir yn SOFA'r CNB yn cyfateb i'r cyfraniad sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r CNB yn talu cost unrhyw gynnydd pensiwn nas ariennir a roddir i bensiynwyr sefydliadau a wnaeth ei ragflaenu nad ydynt yn aelodau o gynllun pensiwn y CNB. Telir y costau hyn pan fydd achos yn codi ac fe'u codir i'r SOFA yn unol â hynny. Yn 2011-2012 roedd y gwariant hwn yn cyfateb i £24,991(2010- 2011: £24,686).

## 21 Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2012, nid oedd unrhyw wariant cyfalaf a gymeradwywyd ond na chontractiwyd ar ei gyfer, nac ychwaith unrhyw wariant cyfalaf y contractiwyd ar ei gyfer ond na ddarparwyd ar ei gyfer yn y datganiadau ariannol.

## 22 Cysoni adnoddau (sy'n mynd allan)/sy'n dod i mewn net ag all-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| Adnoddau (sy'n mynd allan)/sy'n dod i mewn net o weithrediadau | **(8,410)** | 7,751 |
| Incwm buddsoddiadau | **(1,200)** | (876) |
| Taliadau dibrisio | **2,635** | 2,369 |
| (Cynnydd) mewn dyledwyr | **(353)** | (608) |
| Cynnydd mewn credydwyr a darpariaethau | **5,187** | 1,471 |
| (All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **(2,141)** | 10,107 |

## 23 Cysoni llif arian parod net i symudiadau mewn cronfeydd net

| | **2012** | 2011 |
|---|---|---|
| | **£'000** | £'000 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn arian parod yn ystod y flwyddyn | **(4,815)** | 10,003 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | **70,247** | 60,244 |
| Cronfeydd net ar 31 Mawrth | **65,432** | 70,247 |

## 24 Dadansoddiad o'r newidiadau i gronfeydd net

| | 1 Ebrill 11 | **Llifau arian parod** | **31 Mawrth 12** |
|---|---|---|---|
| | £'000 | **£'000** | **£'000** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 70,247 | **(4,815)** | **65,432** |
| Cyfanswm | 70,247 | **(4,815)** | **65,432** |

## 25 Ymrwymiadau prydlesu

Ar 31 Mawrth 2012 roedd gan y CNB ymrwymiadau i wneud taliadau yn y flwyddyn ganlynol o dan brydlesau gweithredu nad oedd modd eu canslo fel y nodir isod.

| | **Tir ac adeiladau** | | **Offer a pheiriannau** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2012** | 2011 | **2012** | 2011 |
| | **£'000** | £'000 | **£'000** | £'000 |
| Prydlesau gweithredu sy'n dod i ben: | | | | |
| • O fewn blwyddyn | **-** | **-** | **-** | - |
| • Yn yr ail i bumed flwyddyn yn cynnwys y blynyddoedd hynny | **-** | **-** | **5** | 6 |
| • Mewn mwy na phum mlynedd | **1,940** | 1,291 | **-** | - |
| Ymrwymiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn | **1,940** | 1,291 | **5** | 6 |

Mae'r CNB yn rhentu adeiladau ar brydles yn 61 Aldwych, Llundain, am y cyfnod hyd at 10 Medi 2019, Clarendon House, 114-116 George Street, Caeredin, am y cyfnod hyd at 24 Ebrill 2021 ac yn 1 Kemble Street, Llundain, am y cyfnod hyd at 21 Rhagfyr 2019.

## 26 Symudiad mewn cronfeydd cyfyngedig

| | **Balans ar 1 Ebrill 2011** | **Incwm** | **Adnoddau a wariwyd** | **Balans ar 31 Mawrth 2012** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Ailddilysu - (i) | 258 | - | (148) | **110** |
| Asesiad o ddata addasrwydd i ymarfer - (ii) | 97 | - | (87) | **10** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | 355 | - | (235) | **120** |

(i) Roedd a wnelo'r balans o £258,000 ar 1 Ebrill 2011 â chyfraniad yr Adran Iechyd at waith y CNB ar ailddilysu. Defnyddiwyd £148,000 yn ystod 2011-2012. Defnyddir y balans a gariwyd ymlaen, sef £110,000, yn 2012-2013.

(ii) Roedd a wnelo'r balans o £97,000 ar 1 Ebrill 2011 â grant yr Adran Iechyd i asesu data addasrwydd i ymarfer y CNB er mwyn datblygu fframwaith ailddilysu yn seiliedig ar risg. Defnyddiwyd £87,000 yn ystod 2011-2012. Defnyddir y balans a gariwyd ymlaen, sef £10,000, i gwblhau'r gwaith yn 2012-2013.

## 27 Asedau net yn ôl cronfa

| | Anghyfyngedig cyffredinol | Cyfyngedig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Asedau sefydlog | **18,416** | **-** | **18,416** |
| Asedau cyfredol | **66,869** | **120** | **66,989** |
| Rhwymedigaethau cyfredol | **(43,640)** | **-** | **(43,640)** |
| Rhwymedigaethau hirdymor | **(96)** | **-** | **(96)** |
| Balans ar 31 Mawrth 2012 | **41,549** | **120** | **41,669** |

## 28 Taliadau arbennig

Gwnaed pedwar taliad arbennig yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2012 a oedd yn werth cyfanswm o £99,300 (yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011 gwnaed tri thaliad arbennig a oedd yn werth cyfanswm o £127,889). Cadarnhawyd bod y taliadau hyn yn daliad priodol a rhesymol gan Drysorlys EM.

**Atodiad 1**

# Penderfyniad Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (Ffurf Cyfrifon) 2010

Their Lordships make the following determination in exercise of powers conferred by article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001[66].

This determination has effect from 23rd February 2010.

**Interpretation**

1. In this Determination-

> "the accounts" means the accounts which it is the Council's duty to keep and prepare under article 52(1) of the Nursing and Midwifery Order 2001 in respect of the financial year ending on 31st March 2010 and subsequent financial years;
>
> "the Charities' SoRP" means the "Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice 2005 prepared by the Charities Commission or any updated edition in force for the relevant financial year.
>
> "the Council" means the Nursing and Midwifery Council;
>
> "the FReM" means the Government Financial Reporting Manual issued by HM Treasury which is in force for the relevant financial year.

**Determination**

2. The accounts must-

> (a) be prepared so as to give a true and fair view of the Council's state of affairs as at 31st March of the financial year in question and of the incoming resources and application of resources of the Council for that financial year; and
>
> (b) disclose any material incoming or outgoing resources that have not been applied to the purposes intended by Parliament or material transactions that have not conformed to the authorities which govern them.

---

[66] O.S. 2002/253

3. Subject to paragraph 4, in order to comply with paragraph 2(a), the accounts must be prepared-

(a) in compliance with the accounting principles and disclosure requirements contained in the Charities' SoRP; and

(b) having regard to the requirements of the FReM to the extent that those requirements clarify, or build on, the requirements of the Charities' SORP.

4. Where the presence of exceptional circumstances means that compliance with the requirements of the Charities SORP or the FReM would give rise to the preparation of accounts which were inconsistent with the requirement in paragraph 2(b), those requirements should be departed from only to the extent necessary to give a true and fair view of that state of affairs.

5. In cases referred to in paragraph 4, informed and unbiased judgement should be used to devise an appropriate alternative treatment which is consistent with both the economic characteristics of the circumstances concerned and the spirit of the Charities' SORP and the FReM.

6. This determination shall be reproduced as an appendix to the published accounts.

Signed by the authority of the Privy Council

Dated: 18th July 2011